Y Comisiwn Etholiadol

Adroddiad blynyddol 2009–10

HC 318

Y Comisiwn Etholiadol

Adroddiad blynyddol 2009–10

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Adran 1, Atodlen 1(20) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000

Gorchymynnwyd i'w argraffu gan Dŷ'r Cyffredin 26 Gorffennaf 2010

HC 318 Llundain: Y Llyfrfa £14.75

© Y Comisiwn Etholiadol 2010

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ac eithrio, pan fyddant yn bresennol, yr Arfau Brenhinol a phob logo adrannol ac asiantaeth) am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng ar yr amod eu bod yn cael eu hatgynhyrchu yn gywir heb fod mewn cyd–destun camarweiniol.

Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint y Comisiwn Etholiadol a rhaid nodi teitl y ddogfen. Pan fydd deunydd gan bartïon eraill wedi ei ddynodi, rhaid cael caniatâd gan y deiliad hawlfraint perthnasol.

ISBN: 9780102966770

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig i The Stationery Office Limited ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID P002371531 06/10

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys lleiafswm o 75% o gynnwys ffibr wedi ei ailgylchu.

Cynnwys

Rhagair 1

Amcan 1 – Hygrededd a thryloywder cyllid pleidiau ac etholiadau 3

Amcan 2 – Cofrestri etholiadol cyflawn a chywir yn cael eu cefnogi gan broses gofrestru etholiadol a gynhelir yn dda 18

Amcan 3 – Etholiadau a refferenda a gynhelir yn dda sy'n cynhyrchu canlyniadau sy'n cael eu derbyn 27

Amcan 4 – Trefniadau ffiniau teg ar gyfer etholiadau yn Lloegr 34

Adnoddau a chyllid corfforaethol 37

Cysylltu â ni 44

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ynghylch cael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu ar ffurf fersiwn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Nod a gwerthoedd

Ein Nod

Hygrededd a hyder cyhoeddus ym mhroses ddemocrataidd y Deyrnas Unedig

Ein gwerthoedd

Teg – rydym yn deg yn y modd yr ydym yn trin ein gilydd a'r bobl a'r sefydliadau yr ydym yn ymdrin â nhw

Diduedd – rydym yn ddiduedd yn ein penderfyniadau a'n gweithredoedd

Tryloyw – rydym yn dryloyw am y ffordd yr ydym yn gweithio

Ein hamcanion ar gyfer 2009–10

Hygrededd a thryloywder cyllid pleidiau ac etholiadau

Cofrestri etholiadol cyflawn a chywir wedi eu cefnogi gan broses gofrestru etholiadol a gynhelir yn dda

Etholiadau a refferenda a gynhelir yn dda sy'n cynhyrchu canlyniadau a dderbynnir

Trefniadau ffiniau teg ar gyfer etholiadau yn Lloegr

Rhagair

Rhaid i bleidleiswyr fod yn hyderus am y ffordd y mae ein proses ddemocrataidd yn gweithio. Gallu pobl i ddewis rhwng barnau gwrthgyferbyniol pleidiau gwleidyddol trwy etholiadau diogel sy'n syml, hygyrch a diogel yw sylfaen ein democratiaeth. Ein nod yw hygrededd a hyder cyhoeddus yn y system ddemocrataidd. Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau ac yn gosod safonau ar gyfer etholiadau a gynhelir yn dda. Rydym yn ymroddedig i fod yn sefydliad sy'n ymateb yn effeithiol i anghenion pleidleiswyr yn Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Mae gennym rôl i'w chwarae o ran ail adeiladu hyder mewn democratiaeth. Rydym yn defnyddio dull cadarn, diduedd a chymesur i reoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau. Yn 2009–10, fe wnaethom groesawu'r newidiadau a ddaeth i mewn yn sgil Deddf Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau 2009 (Deddf PGE). Mae'n darparu ystod fwy cymesur o gosbau i'w gweithredu pan fydd y rheolau'n cael eu torri, a phwerau ymchwilio mwy addas. Mae hefyd yn rhoi mwy o ddewisiadau i ni i ddefnyddio dulliau newydd mwy adeiladol, fel rhoi rhybudd cydymffurfio sy'n gofyn i bleidiau newid eu gweithdrefnau. Edrychwn ymlaen at weld y pwerau a'r cosbau newydd yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2010.

Yn ystod 2009, fe wnaethom ddatblygu ac ymgynghori ar bolisi gorfodi cyllid pleidiau ac etholiadau newydd yn nodi sut y byddwn yn defnyddio'r pwerau newydd a ddarparwyd gan y Ddeddf PGE. Fel rhan o'r broses ymgynghori, fe wnaethom gyfarfod amrywiaeth eang o bobl gan gynnwys ASau, pleidiau gwleidyddol a phleidleiswyr. Bydd eu barn yn cael ei hadlewyrchu yn fersiwn derfynol y polisi. Er mwyn cefnogi ein dull newydd, rydym hefyd wedi datblygu ac ymgynghori ar offer proffilio risg ffurfiol i'w defnyddio yn ein gwaith rheoleiddiol. Bydd y rhain yn ein helpu i dargedu ein hadnoddau archwilio a theilwrio ein cyngor a'n cyfarwyddyd. Seilir yr offer hyn ar egwyddorion rheoleiddio da a nodir yn adroddiadau Hampton[1] a Macrory[2]. Byddwn yn gweithio yn glos gyda phleidiau gwleidyddol ac eraill yr ydym yn eu rheoleiddio i sicrhau eu bod yn deall y polisi gorfodi newydd a'n dull sy'n seiliedig ar risg.

Ein nod yw sicrhau bod pleidiau gwleidyddol yn deall y rheolau yn llawn ac yn cydymffurfio â nhw yn wirfoddol. Oherwydd hyn, rydym yn darparu cyngor, cyfarwyddyd a hyfforddiant cynhwysfawr. Yn ystod 2009–10, fe wnaethom ymateb i dros 2,000 o alwadau i'n llinell gymorth cyllid pleidiau ac etholiadau a chyhoeddi amrywiaeth eang o ddogfennau cyfarwyddyd, gan gynnwys gwybodaeth i ymgeiswyr, asiantau a phleidiau gwleidyddol. Ond weithiau rydym yn darganfod tystiolaeth bod y rheolau wedi cael eu torri. Yn ystod 2009–10, fe wnaethom asesu 104 achos o beidio cydymffurfio[3] posibl a chynnal 48 adolygiad achos, y mwyafrif ohonynt wedi eu datrys heb yr angen am weithredu gorfodi pellach. Fe wnaethom hefyd ddwyn dau ymchwiliad i ben. Roedd y rhain yn arbennig o gymhleth ac yn cynnwys meysydd o'r gyfraith nad oedd wedi eu profi erioed o'r blaen.

1 Syr Philip Hampton, *Reducing Administrative Burdens: Effective Inspection and Enforcement*, (Mawrth 2005), ar gael yn www.berr.gov.uk/files/file22988.pdf.

2 Yr Athro Richard Macrory, *Regulatory Justice: Making Sanctions Effective, Final Report*, (Tachwedd 2006), ar gael yn www.berr.gov.uk/files/file44593.pdf.

Rhagair (parhad)

Yn ogystal â rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau, ein rôl yw sicrhau bod etholiadau a chofrestru etholiadau yn cael eu cynnal yn dda a bod y broses bleidleisio yn syml a diogel. Yn 2009–10, fe wnaethom barhau i fonitro perfformiad Swyddogion Canlyniadau (SC) a Swyddogion Cofrestru Etholiadol (SCE) o'u cymharu â'n fframwaith safonau perfformiad. SC sy'n gyfrifol am gynnal etholiadau yn y Deyrnas Unedig. Fe wnaethom roi adroddiad ar eu perfformiad yn hydref 2009 yn dilyn etholiadau'r Senedd Ewropeaidd a'r etholiadau lleol yn Lloegr a darganfod bod dros 90% yn cyrraedd pob un o'r saith safon perfformiad yr oeddem wedi eu gosod. Ond, nid oedd gan nifer sylweddol gynlluniau ffurfiol yn eu lle i sicrhau hygrededd – diogelwch – yr etholiad nag ar gyfer cynllunio a chyflawni gweithgareddau ymwybyddiaeth cyhoeddus. Mae SCE yn chwarae rôl hanfodol wrth sicrhau bod cofrestri etholiadol yn gywir a chyflawn. Yn 2009–10, fe wnaethom gynnal ein hail ddadansoddiad o berfformiad SCE o'u cymharu â'n safonau. Fe wnaethom ddarganfod peth gwelliant ers y rownd gyntaf o asesiadau, ond fe ddynodwyd rhai meysydd allweddol lle mae angen gwelliant. Fe wnaethom dynnu ar y canfyddiadau i fod yn sail i'n paratoadau ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig, a byddwn yn parhau i weithio gyda SC a SCE i yrru gwelliannau mewn meysydd lle na chyrhaeddwyd y safonau.

Yn 2009–10, fe wnaethom gwblhau nifer o brosiectau mawr. Fe wnaethom gynnal ymchwil i ba mor gyflawn a chywir yw cofrestri etholiadol. Roedd ein hadroddiad *The completeness and accuracy of electoral registers in Great Britain*,[4] a gyhoeddwyd ym Mawrth 2010, yn adolygu cyfraddau cofrestru ac yn edrych ar y ffactorau sy'n gysylltiedig â than gofrestru. Dangosodd yr adroddiad ei bod yn ymddangos bod cyfraddau cofrestru fel petaent wedi sefydlogi ers 2006. Fe wnaethom ddarganfod hefyd, yn yr ardaloedd astudiaethau achos, bod peidio cofrestru a diffyg cywirdeb yn gysylltiedig â grwpiau cymdeithasol penodol, pobl ifanc yn arbennig a phobl o gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig. Mae pobl yn newid cyfeiriad yn rheswm sylweddol dros beidio cofrestru.

Cynhaliwyd un o'n hymgyrchoedd gwybodaeth cyhoeddus mwyaf llwyddiannus hefyd, a arweiniodd at weld 150,000 o ffurflenni cofrestru etholiadol yn cael eu harchebu o'n canolfan alwadau neu eu lawr lwytho o wefan fymhleidlaisi.co.uk, cyn etholiadau Senedd Ewrop ac etholiadau lleol Lloegr ym Mehefin 2009. Er mwyn helpu i sicrhau bod pobl yn gweld pleidleisio mor hawdd â phosibl, fe wnaethom hefyd gynhyrchu *Gwneud eich marc*,[5] adnodd cynhwysfawr i gefnogi awdurdodau lleol wrth iddynt gynhyrchu deunyddiau pleidleisio clir.

Ni allem fod wedi gwireddu ein llwyddiannau heb ein gweithlu ymroddedig a medrus ar draws y Deyrnas Unedig, ac fe fyddem yn hoffi diolch iddynt am eu gwaith caled dros y flwyddyn.

Edrychwn ymlaen at adeiladu ar ein gwaith yn 2010–11, a byddwn yn parhau i roi pleidleiswyr yn gyntaf ym mhopeth a wnawn.

Peter Wardle, Prif Weithredwr
a Jenny Watson, Cadeirydd

3 O'r 104 o achosion o beidio cydymffurfio posibl, dygwyd 65 i'n sylw gan ffynonellau allanol, a dynodwyd 39 o ganlyniad i'n gwaith monitro ni ein hunain.

4 Y Comisiwn Etholiadol, *The completeness and accuracy of electoral registers in Great Britain*, www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/pdf_file/0018/87111/The-completeness-and-accuracy-of-electoral-registers-in-Great-Britain.pdf.

5 Y Comisiwn Etholiadol, *Gwneud eich marc*, http://www.dopolitics.org.uk/cymraeg/?a=81008

Amcan 1 – Hygrededd a thryloywder cyllid pleidiau ac etholiadau

Rhaid i bobl fod yn hyderus bod pleidiau gwleidyddol yn cael eu cyllido yn dryloyw oherwydd mae ein democratiaeth dan fygythiad os nad yw'r hyder hwnnw yn bodoli. Fel rheoleiddiwr cyllido pleidiau gwleidyddol yn y Deyrnas Unedig, ein rôl yw sicrhau hygrededd a thryloywder cyllid pleidiau ac etholiadau.

Mae cyfraith etholiadau yn ei gwneud yn ofynnol i bleidiau gwleidyddol, a sefydliadau ac unigolion eraill a reoleiddir, dderbyn rhoddion a benthyciadau gan rai ffynonellau penodol yn unig. Mae'r gyfraith hefyd yn nodi bod rhaid i wybodaeth am y lle y mae pleidiau yn cael eu harian ohono, a sut y maent yn ei wario, gael eu rhoi i ni a bod ar gael yn gyhoeddus.[6] Rydym yn gwirio bod y rheolau yn cael eu dilyn ac rydym yn cyhoeddi gwybodaeth am incwm a gwariant pleidiau fel y mae'r gyfraith treuliau yn ei gwneud yn ofynnol.

Ein nod yw sicrhau bod pleidiau gwleidyddol ac endidau eraill a reoleiddir yn deall y rheolau yn llawn ac yn cydymffurfio â nhw yn wirfoddol. Felly rydym yn rhoi cyfarwyddyd, cyngor a hyfforddiant i'w helpu i gyflawni eu hymrwymiadau cyfreithiol.

Pan fyddwn yn darganfod tystiolaeth sy'n awgrymu bod y gyfraith wedi cael ei thorri, rydym yn cymryd camau addas. Ein nod yw rheoleiddio mewn modd cymesur ac ar sail risg, yn unol ag egwyddorion rheoleiddio da. Gall hyn amrywio o roi dirwy am adroddiad hwyr, i atgyfeirio achosion difrifol at yr heddlu neu'r awdurdodau erlyn i'w hymchwilio ymhellach neu i'w hystyried ar gyfer erlyniad troseddol.

Mae'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau 2009 (Deddf PGE) yn rhoi amrywiaeth fwy cymesur o gosbau i ni i'w gweithredu pan fydd rheolau yn cael eu torri, a phwerau ymchwilio mwy addas. Cyflwynwyd offeryn statudol yn y Senedd i arwain y ffordd at gychwyn y pwerau a'r cosbau newydd ar 1 Rhagfyr 2010. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Llywodraeth, pleidiau gwleidyddol ac eraill i sicrhau bod y fframwaith cyfreithiol sy'n rheoli cyllid gwleidyddol yn parhau yn berthnasol a chyfredol.

6 Yn ôl gofynion y gyfraith, nid ydym yn cyhoeddi rhoddion a benthyciadau y rhoddir adroddiadau arnynt i ni gan bleidiau a gofrestrwyd yng Ngogledd Iwerddon.

Dangosyddion perfformiad allweddol

Mesur	Targed	Perfformiad
Mesuriadau allbwn a chanlyniad[7]		
Canran o ymatebion ar gyfer a) cyngor arferol a roddwyd cyn pen 5 diwrnod gwaith o'u derbyn a b) ar gyfer barn ymgynghorol ffurfiol a chyngor ar faterion newydd a chymhleth cyn pen 30 diwrnod gwaith o'u derbyn[8]	a) **95%** b) **90%**	a) **97%** (2,403 o 2,467) b) **94%** (229 o 244)
Canran o achosion yn ymwneud â thorri posibl ar y rheolau a ddatryswyd cyn pen 6 mis	**90%**	**94%** (45 o 48)
Canran o ffurflenni statudol a ddychwelwyd gan y rhai yr ydym yn eu rheoleiddio sy'n cael eu cyflwyno mewn pryd[9]	Tuedd at welliant ar ffigwr 2008 o **92%**	**96%** (2,901 o 3,030)
Canran o ffurflenni a gyflwynwyd mewn pryd yr ydym yn eu cyhoeddi cyn pen 20 diwrnod gwaith	**100%**	**99%** (911 o 923)
Canran o roddion y rhoddwyd adroddiad arnynt yn y chwarter cywir gan a) unedau cyfrifo a b) brif swyddfa'r blaid	Tuedd at welliant ar ffigyrau 2008 o a) **95%** b) **99%**	a) **94%** (3,137 o 3,327) b) **97%** (1,166 o 1,196)
Canran o bleidiau gwleidyddol newydd a gofrestrwyd cyn pen 20 diwrnod[10]	**95%**	**100%** (109 o 109)
Dangosyddion cynnydd[11]		
Canran o gyhoedd y Deyrnas Unedig sy'n hyderus y byddai'r awdurdodau yn cymryd camau addas petai rywun yn cael ei ddal yn torri rheolau cyllid pleidiau	Tuedd at wella ar ffigwr 2008–9 o **41%**	**31%**

7 Mae mesuriadau allbwn a chanlyniad yn ein helpu i fonitro gweithgareddau yr ydym naill ai yn eu rheoli yn llawn neu'n rhai yr ydym yn medru dylanwadu yn sylweddol arnynt.

8 Gweler Tabl 8 isod.

9 Mae rhai pleidiau wedi eu heithrio rhag cyflwyno adroddiad. Mae'r ffigurau a roddir yn yr adroddiad hwn yn cynnwys y pleidiau hynny. Gweler Tablau 5, 6 a 7 isod.

10 Gweler 'Cofrestru pleidiau gwleidyddol' ar dudalen 5.

11 Dangosyddion cynnydd yn darparu gwybodaeth i ni sy'n helpu i dargedu ein gweithgareddau.

Dangosyddion perfformiad allweddol (parhad)

Fe wnaethom gyrraedd mwyafrif ein targedau. Roedd rhai problemau cychwynnol gydag offeryn chwilio datganiadau cyfrif newydd a arweiniodd at weld 22 datganiad cyfrif ddim yn cael eu cyhoeddi o fewn ein targed (allan o gyfanswm o 818 a dderbyniwyd). Dim ond yng nghyswllt nifer o ddatganiadau cyfrifon ar gyfer pleidiau gwleidyddol llai yr oedd y broblem hon[12] – cyhoeddwyd yr holl ffurflenni statudol eraill cyn pen 20 diwrnod gwaith o'u derbyn. Er y problemau cychwynnol, mae gennym yn awr offeryn chwilio newydd a mwy effeithlon ar gyfer cyfrifon pleidiau.

Fe welsom lai o adroddiadau rhoddion ar amser nag yr oeddem wedi anelu at eu gweld, gyda nifer o roddion yn cael eu hadrodd mewn chwarter hwyrach nag y dylent. Er nad oes gennym unrhyw reolaeth uniongyrchol dros y ganran o roddion y rhoddir adroddiad arnynt yn y chwarter cywir, fe wnaethom annog pawb i gydymffurfio trwy roi pwysau ar y pleidiau dan sylw i osod cynlluniau i sicrhau eu bod yn rhoi adroddiad mewn pryd yn y dyfodol.

Cofrestru pleidiau gwleidyddol

Mae'n ofynnol i bleidiau gwleidyddol gofrestru gyda ni i sefyll etholiadau yn y Deyrnas Unedig. Rydym yn cadw dwy gofrestr o bleidiau gwleidyddol – un ar gyfer Prydain Fawr ac un ar gyfer Gogledd Iwerddon. Fe wnaethom adolygu ein cyfarwyddyd ar gofrestru pleidiau yn dilyn newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf PGE. Rydym yn darparu cyfarwyddyd a chefnogaeth i unrhyw un sydd am gofrestru plaid wleidyddol, ac yn rhoi gwybod iddynt am eu cyfrifoldebau. Pan fydd hynny'n bosibl, rydym yn cyfarfod yr ymgeiswyr cyn iddynt gofrestru i drafod y gofynion statudol sydd ynghlwm â chofrestru plaid.

Ar 31 Rhagfyr 2009, roedd 384 plaid wedi eu cofrestru gyda ni. Cofrestrodd chwedeg dau o bleidiau newydd gyda ni yn ystod 2009, y cyfan wedi eu cofrestru cyn pen 20 diwrnod gwaith i ni dderbyn eu cais. Rydym yn awyddus iawn i sicrhau bod manylion y pleidiau yn gywir fel ein bod yn medru eu rheoleiddio yn effeithiol. Am y rheswm hwn, fe wnaethom ddadgofrestru 17 plaid am beidio cyflwyno cadarnhad blynyddol o'r manylion cofrestredig. Dadgofrestrodd 33 o bleidiau eraill yn wirfoddol yn ystod 2009.

Yn y cyfnod yn arwain at etholiad y Deyrnas Unedig, am y cyfnod 1 Ionawr 2010 hyd 31 Mawrth 2010, cofrestrodd 63 plaid newydd gyda ni.

12 Pleidiau gydag incwm a gwariant o £250,000 neu lai.

Gweithgareddau allweddol

Dangos ein bod yn cyflawni ein rôl reoleiddiol yn effeithiol, teg a diduedd, i godi hyder yn nidwylledd a thryloywder cyllid pleidiau ac etholiadau.

- Mae'n ofynnol i bleidiau gwleidyddol roi gwybodaeth i ni bob chwarter am roddion y maent wedi eu derbyn a benthyciadau y maent wedi eu cymryd. Seiliwyd y chwarteri ar y flwyddyn galendr, gydag un chwarter yn rhedeg o Ionawr i Fawrth. Mae'n ofynnol i bleidiau ddarparu datganiad cyfrifon i ni hefyd ar gyfer pob blwyddyn, gyda'r rhan fwyaf o bleidiau yn defnyddio Rhagfyr fel diwedd eu blwyddyn.[13] Rydym yn cyhoeddi'r data gan bleidiau gwleidyddol ym Mhrydain Fawr ar ein gwefan, ac mae ar gael i'r cyfryngau a'r cyhoedd. Mae'n ofynnol i bleidiau sydd wedi cofrestru i sefyll etholiad yng Ngogledd Iwerddon hefyd ddatgan gwybodaeth ar roddion y maent wedi eu derbyn a benthyciadau y maent wedi eu cymryd. Ond, yn ôl y gyfraith, nid ydym yn cyhoeddi rhoddion a benthyciadau y rhoddir adroddiadau i ni arnynt gan bleidiau a gofrestrwyd yng Ngogledd Iwerddon. Daw'r gofyn cyfreithiol hwn i ben ar 31 Hydref 2010. Bydd Swyddfa Gogledd Iwerddon yn cynnal ymgynghoriad ar ymestyn cyfrinachedd am hyd at ddwy flynedd arall neu beidio. Fe wnaethom gyhoeddi ymchwil yn ddiweddar oedd yn dangos y byddai dros 60% o'r rhai a holwyd yn cefnogi datgeliad llawn ar wybodaeth am roddion a benthyciadau yng Ngogledd Iwerddon.[14]

- Mae'n ofynnol i bleidiau ddarparu gwybodaeth i ni am eu rhoddion a'u benthyciadau cyn pen 30 diwrnod yn dilyn diwedd y chwarter.[15] Ar gyfer 2009 cyflwynwyd 97.5% o'r ffurflenni o fewn y cyfnod hwn, cynnydd o 92% yn 2008. Rydym yn anelu at gyhoeddi gwybodaeth cyn pen 20 diwrnod gwaith o dderbyn ffurflen. Ar gyfer ffurflenni 2009 fe wnaethom gyhoeddi 100% o'r ffurflenni rhoddion a benthyciadau a adroddwyd i ni o fewn y targed hwn.

- Ar gyfer 2009, fe wnaethom gyhoeddi data yn ymwneud â mwy na £59 miliwn mewn rhoddion a £10.5 miliwn o fenthyciadau newydd.[16] Ar ddiwedd 2009, roedd gan bleidiau £15.7 miliwn o fenthyciadau yn parhau.[17] Mae'r tablau isod yn rhoi manylion rhoddion a benthyciadau y rhoddwyd adroddiad arnynt i ni yn ystod blwyddyn galendr 2009. Gellir gweld rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

- Rydym hefyd yn anelu at ddarparu gwybodaeth ar wariant gan bleidiau ar gyfer etholiadau a dadansoddiad ohono. Dangosodd ein hadroddiad ar y gwariant ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop 2009, bod y pleidiau wedi gwario ychydig dros £9 miliwn ar ymgyrchu ym Mhrydain Fawr. Yng Ngogledd Iwerddon, mae'n ofynnol i bleidiau sy'n sefyll etholiadau Senedd Ewrop roi adroddiad i'r Comisiwn, tra bydd ymgeiswyr yn rhoi ffurflenni treuliau i Brif Swyddog Etholiadol Gogledd Iwerddon. Gwariodd pleidiau Gogledd Iwerddon bron i £247,000 ar ymgyrchu, gydag ymgeiswyr yn gwario £512,000 ychwanegol.

13 Oherwydd bod adroddiadau statudol fel arfer yn cael eu gwneud am y flwyddyn galendr, mae'r ffigyrau yn yr adroddiad hwn ar gyfer ffurflenni statudol (gan gynnwys ffurflenni rhoddion a datganiadau cyfrif) yn seiliedig ar flwyddyn galendr, nid y flwyddyn ariannol.

14 www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/pdf_file/0019/82126/Ipsos-Mori-Research-Report-On-Party-And-Election-Finance-In-Northern-Ireland.pdf.

15 Y Comisiwn Etholiadol, *Donations and Loans: Guidance for Political Parties in Great Britain*, www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/electoral_commission_pdf_file/0018/13707/Guidance-on-donations-and-loans-to-a-political-party.pdf.

16 Yn seiliedig ar y data o'r gofrestr o fenthyciadau http://registers.electoralcommission.org.uk/files/dms/Allregulatedtransactions-Q42009(website)_30532-22749__E__N__S__W__.xls.

Gweithgareddau allweddol

Tabl 1: Cyfanswm y rhoddion y rhoddwyd adroddiad arnynt gan y pleidiau i gyd ar gyfer 2009 (Prydain Fawr yn unig)					
	Chwarter 1	Chwarter 2	Chwarter 3	Chwarter 4	Cyfanswm
Cronfeydd cyhoeddus (£)[18]	2,133,162	2,724,230	1,943,207	2,501,071	9,301,670
Rhoddion o ffynonellau eraill (£)	9,966,096	13,324,595	9,649,914	17,142,498	50,083,103
Cyfanswm (£)	**12,099,258**	**16,048,825**	**11,593,121**	**19,643,569**	**59,384,773**

Tabl 2: Cymharu rhoddion o flwyddyn i flwyddyn (Prydain Fawr yn unig)			
	2007	2008	2009
Cronfeydd cyhoeddus (£)[18]	8,614,653	9,057,227	9,301,670
Rhoddion o ffynonellau eraill (£)	48,221,923	42,257,769	50,083,103
Cyfanswm (£)	**56,836,576**	**51,314,996**	**59,384,773**

Ffigwr 1: Cymhariaeth rhoddion o flwyddyn i flwyddyn (Prydain Fawr yn unig)



17 Yn seiliedig ar y data o'r gofrestr fenthyciadau http://registers.electoralcommission.org.uk/files/dms/Allregulatedtransactions-Q42009(website)_30532-22749__E__N__S__W__.xls.

18 Telir arian cyhoeddus i bleidiau gwleidyddol cymwys. Sef y canlynol: grantiau Datblygu Polisi, a delir gan y Comisiwn Etholiadol; Arian Short, a delir gan y Tŷ Cyffredin; Arian Cranborne, a delir gan Dŷ'r Arglwyddi; cymorth i Bleidiau Gwleidyddol Cofrestredig, a delir gan Senedd yr Alban. Ni chaiff pleidiau gwleidyddol ddefnyddio arian cyhoeddus i gwrdd â chostau ymgyrchu etholiadol.

Gweithgareddau allweddol

Tabl 3: Cyfanswm y rhoddion y rhoddwyd adroddiad arnynt yn 2009 ar gyfer pleidiau gyda mwy na £100,000 mewn incwm datganedig (Prydain Fawr yn unig)			
Plaid	Cronfeydd cyhoeddus (£)	Rhoddion o ffynonellau eraill[19] (£)	Cyfanswm (£)
Y Blaid Geidwadol	5,428,014	26,929,097	32,357,111
Y Blaid Lafur	1,007,201	15,194,912	16,202,113
Democratiaid Rhyddfrydol	2,326,175	3,829,138	6,155,313
Plaid Annibyniaeth y DU (UKIP)	0	1,402,987	1,402,987
Y Blaid Gydweithredol	0	924,916	924,916
Plaid Genedlaethol yr Alban	260,142	160,879	421,021
Plaid Cymru – Party of Wales [The]	271,187	142,656	413,843
Y Blaid Werdd[20]	0	351,913	351,913
Plaid Gristnogol "Datgan Arglwyddiaeth Crist"	0	273,937	273,937
Cyfanswm	**9,292,719**	**49,210,435**	**58,503,154**

19 Mae hyn yn cynnwys rhoddion ariannol a heb fod yn ariannol yn unig.

20 Plaid Werdd Cymru a Lloegr yn unig.

Gweithgareddau allweddol

Tabl 4: Manylion y benthyciadau a gymerwyd yn 2009 gan y Ceidwadwyr/Llafur/Democratiaid Rhyddfrydol/Plaid Cymru/Plaid Genedlaethol yr Alban a'r pleidiau eraill[21]						
	Benthyciadau (£)		Cyfleusterau credyd (£)		Trafodion cysylltiedig (£)	
	Lluniwyd	Ad–dalwyd	Lluniwyd	Daeth i ben	Lluniwyd	Daeth i ben
Y Blaid Geidwadol	143,608	2,759,114	5,010,000	0	0	0
Y Blaid Lafur	16,649	1,513,651	4,000,000	2,000,000	600,000	0
Y Democratiaid Rhyddfrydol	100,876	13,728	6,000	35,000	0	0
Plaid Cymru – Party of Wales [The]	0	0	0	0	0	0
SNP	50,000	0	0	0	0	0
Pleidiau eraill	571,452	28,460	20,000	0	0	0

Tabl 5: Ffurflenni rhoddion a dderbyniwyd ar gyfer 2009 o fewn y dyddiadau statudol[22]				
	Ion–Maw	Ebr–Meh	Gorff–Medi	Hyd–Rhag
Nifer yn ddyledus	335	335	337	335
O fewn y dyddiadau cau statudol	329	326	328	331

21 Y pleidiau eraill yw'r Blaid Gristnogol, Jury Team, Left List, Plaid y Pensiynwyr, Gwyrddion yr Alban, UKIP.

22 Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i bleidiau cofrestredig gyflwyno manylion rhoddion y maent wedi eu derbyn ym mhob chwarter o fewn y dyddiadau cau statudol. Mae rhai pleidiau wedi eu heithrio dan Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006.

Gweithgareddau allweddol

Tabl 6: Ffurflenni benthyciadau a dderbyniwyd ar gyfer 2009 o fewn y dyddiadau cau statudol[23]				
	Ion–Maw	Ebr–Meh	Gorff–Medi	Hyd–Rhag
Nifer yn ddyledus	335	335	337	335
O fewn y dyddiadau cau statudol	323	319	327	325

Tabl 7: Datganiadau cyfrifon a dderbyniwyd yn 2009			
	Derbyniwyd	Hwyr	Heb eu derbyn
Y nifer a dderbyniwyd gan bleidiau gwleidyddol[24]	308 (yn cynnwys cyflwyniadau hwyr)	34	17
Y nifer a dderbyniwyd gan unedau cyfrifo	510 (yn cynnwys cyflwyniadau hwyr)	18	Amh

23 Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i bleidiau cofrestredig gyflwyno manylion benthyciadau y maent wedi eu gwneud ymhob chwarter cyn pen dyddiad cau statudol. Mae rhai pleidiau wedi eu heithrio dan Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006.

24 Mae'n ofynnol i bleidiau gwleidyddol gydag incwm gros a chyfanswm gwariant o dan £250,000, ac unedau cyfrifo pleidiau gydag incwm neu wariant dros £25,000, i gyflwyno eu datganiad cyfrifon cyn pen pedwar mis o ddiwedd eu blwyddyn ariannol. Mae'n ofynnol i bleidiau ac unedau cyfrifo gydag incwm neu wariant o fwy na £250,000 gyflwyno eu datganiad cyfrifon i ni cyn pen chwe mis a saith diwrnod o ddiwedd eu blwyddyn ariannol.

Gweithgareddau allweddol

Datblygu ein pwerau i reoleiddio yn effeithiol mewn byd sy'n newid, gan dynnu ar arfer rheoleiddiol da mewn mannau eraill.

- Yn seiliedig ar ein profiad fel rheoleiddiwr ers 2001, rydym wedi bod yn galw am ystod ehangach o bwerau cyfreithiol i'w defnyddio pan fydd rheolau yn cael eu torri. Fe wnaethom felly groesawu'r pwerau newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf PGE, a basiwyd gan Senedd y Deyrnas Unedig yng Ngorffennaf 2009.

- Rhaid i ddeddfwriaeth eilaidd fod yn ei le cyn y bydd llawer o'n pwerau newydd yn dod i rym. Er mwyn paratoi ar gyfer hyn, rydym wedi datblygu polisi gorfodi newydd, yn dilyn ymgynghoriad gyda'r rhai yr ydym yn eu rheoleiddio.

- Rydym wedi datblygu ac ymgynghori ar offer proffilio risg ffurfiol i'w defnyddio yn ein gwaith rheoleiddiol, ar sail egwyddorion rheoleiddio da a nodir yn adroddiadau Hampton a Macrory.

- Am ragor o wybodaeth am y Ddeddf PGE a'r gwaith yr ydym yn ei wneud i baratoi ar gyfer ein pwerau newydd, gweler isod.

Gwell rheoleiddio – Deddf Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau 2009

Rhaid i bobl fod yn hyderus bod pleidiau gwleidyddol yn dilyn y rheolau ar gyllid pleidiau ac etholiadau, felly mae'n bwysig ein bod yn cymryd camau cadarn a diduedd pan fydd y rheolau yn cael eu torri. Mae Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda (PPERA) yn rhoi dewisiadau cyfyngedig i ni ar gyfer ymdrin ag achosion pan fydd cyfreithiau cyllid pleidiau ac etholiadau yn cael eu torri. Gallwn osod cosb sefydlog – nad yw bob amser yn gymesur – neu atgyfeirio achos ar gyfer ymchwiliad troseddol. Mae ein pwerau ymchwiliol hefyd yn gyfyngedig a dim ond gan rai pobl y gallwn fynnu cael tystiolaeth.

Fe wnaethom alw am ragor o bwerau i gryfhau ein rôl fel rheoleiddiwr ac felly roeddem yn croesawu'r newidiadau a gyflwynwyd yn Neddf PGE. Mae'r Ddeddf yn darparu ystod ehangach o gosbau ar gyfer ymdrin â'r rhai nad ydynt yn cydymffurfio. Mae'r rhain yn cynnwys ystod ehangach o ddirwyon mwy cymesur, a dulliau newydd adeiladol, fel rhybudd cydymffurfio yn gofyn i'r pleidiau newid eu gweithdrefnau. Cryfhawyd ein pwerau ymchwilio hefyd. Pan fydd gennym reswm i gredu bod y gyfraith wedi ei thorri, byddwn yn medru mynnu cael tystiolaeth gan unrhyw unigolyn sydd â gwybodaeth berthnasol yn hytrach na'r rhai yr ydym yn eu rheoleiddio yn unig. Rydym yn edrych ymlaen at y ddeddfwriaeth eilaidd a fydd yn dwyn y newidiadau hyn i rym.

Yn ystod 2009, fe wnaethom ddatblygu ac ymgynghori ar bolisi gorfodi newydd yn nodi sut y byddwn yn defnyddio ein pwerau newydd. Fel rhan o'r broses ymgynghori, fe wnaethom ysgrifennu at amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau a'u cyfarfod, gan gynnwys cynrychiolwyr etholedig a phleidiau gwleidyddol. Fe wnaethom hefyd gomisiynu ymchwil annibynnol i sicrhau ein bod yn clywed barn aelodau o'r cyhoedd a thrysoryddion gwirfoddol ar lefel leol. Bydd eu barn, ynghyd ag unrhyw bwyntiau ychwanegol a godir yn y Senedd yn ystod y drafodaeth ar y ddeddfwriaeth eilaidd, yn sail i'r fersiwn terfynol o'r polisi, a fydd yn cael ei gyhoeddi cyn 1 Rhagfyr 2010.

Yn ogystal â'r cosbau newydd a'r pwerau ymchwilio, rydym yn datblygu fframwaith risg ffurfiol, yn unol ag egwyddorion rheoleiddio da a nodir yn adroddiadau Hampton a Macrory. Bydd y dull ar sail risg yn ein helpu i ddeall pryd y bydd peidio â chydymffurfio yn fwyaf tebygol o ddigwydd a pha fath o effaith y gall ei gael. Bydd y ddealltwriaeth hon yn caniatáu i ni dargedu ein cyngor, hyfforddiant a gweithgareddau rheoleiddiol yn effeithiol tuag at y rhai sydd mewn mwyaf o berygl o beidio â chydymffurfio.

Gweithgareddau allweddol

Cynghori ac arwain y rhai yr ydym yn eu rheoleiddio ac eraill ar faterion rheoleiddiol i hyrwyddo cydymffurfio â'r gyfraith.

- Pan fydd hynny'n bosibl, rydym yn ceisio defnyddio cyngor a chyfarwyddyd, yn hytrach na gweithredu i orfodi, er mwyn sicrhau cydymffurfio â'r gyfraith. Rydym yn darparu hyfforddiant ac yn rhoi cyfarwyddyd i hyrwyddo cydymffurfio.

- Yn dilyn y Ddeddf PGE, fe wnaethom ddiweddaru ein cyfarwyddyd ar dreuliau ymgeiswyr, anfon papurau briffio i esbonio'r newidiadau yn y gyfraith, a siarad gyda'r grwpiau yr oedd yn effeithio arnynt, gan gynnwys gwirfoddolwyr pleidiau a thrydydd partïon i sicrhau eu bod yn deall beth oedd angen iddynt ei wneud.

- Fe wnaethom gynnal adolygiad mawr o'n deunyddiau cyfarwyddyd cyllid pleidiau ac etholiadau i wneud yn siŵr eu bod mor glir, hawdd eu defnyddio ac effeithiol ag sy'n bosibl. Fe wnaethom ddatblygu dull newydd o ddarparu cyfarwyddyd a fyddai'n gwneud cydymffurfio â'r gyfraith yn fwy syml. Byddwn yn dechrau cyhoeddi cyfarwyddyd newydd ar sail canlyniad yr adolygiad yn haf 2010.

> "Yn 2009–10 fe wnaethom ymdrin â 2,467 ymholiad ar faterion yn amrywio o dreuliau ymgeiswyr i ymgyrchu heb fod dros blaid."

- Rydym yn darparu gwasanaeth ymholiadau trwy'r flwyddyn fel bod y rhai yr ydym yn eu rheoleiddio yn medru cael mynediad at gyngor ar faterion penodol ar gyllid pleidiau ac etholiadau. Yn 2009–10 fe wnaethom ymdrin â 2,467 ymholiad ar faterion yn amrywio o dreuliau ymgeiswyr i ymgyrchu heb fod dros blaid. Fe wnaethom ymateb i 97% o'r ymholiadau arferol cyn pen pum diwrnod gwaith.

- I baratoi ar gyfer etholiad cyffredinol y Deyrnas Unedig, fe wnaethom gyhoeddi cyfarwyddyd wedi ei ddiweddaru i ymgeiswyr ac asiantau ar sefyll etholiad ac ymdrin â threuliau, ac i bleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr heblaw rhai pleidiau ar y rheolau gwariant sy'n berthnasol iddynt hwy.

Tabl 8: Nifer o ymholiadau ac amseroedd datrys

	Y nifer o ymholiadau arferol	Y canran yr ymatebwyd iddynt cyn pen 5 diwrnod gwaith	Y nifer o ymholiadau newydd a chymhleth neu'r rhai oedd yn gofyn am farn ymgynghorol ffurfiol	Y canran yr ymatebwyd iddynt cyn pen 30 diwrnod gwaith
Ebr–Meh	543	98.5%	29	93%
Gorff–Medi	449	97%	23	100%
Hyd–Rhag	533	95%	21	95%
Ion–Ebr	942	98%	171	93%

Gweithgareddau allweddol

Datblygu a gwella ein prosesau ffurflenni statudol a chofrestri i sicrhau tryloywder a hyrwyddo cydymffurfiaeth â'r gyfraith.

- Rydym yn datblygu system ar–lein fydd yn caniatáu i'r rhai yr ydym yn eu rheoleiddio gyflwyno ffurflenni chwarterol a chyfrifon a diweddaru manylion plaid mewn un lle canolog. Bydd y system newydd yn gwneud llenwi ffurflenni yn fwy syml i bleidiau ac yn gwneud y broses gyhoeddi yn fwy effeithlon. Bydd gwybodaeth ariannol hefyd yn haws ei chyrraedd. Bydd y system newydd yn cael ei lansio yn hwyr yn 2010.

- Fe fyddem yn hoffi gweld dull mwy tryloyw o roi adroddiad ar gyfrifon. Yn 2009–10, yn dilyn ymgynghori gyda'r pleidiau, fe wnaethom ddatblygu cynnig i gyflwyno gofynion safonol ar gyfer y datganiad cyfrifon y mae'n ofynnol i bleidiau ei gyflwyno i ni. Byddwn yn gweithio i symud y prosiect hwn yn ei flaen fel bod fformat safonol ar gyfer datganiadau cyfrifon yn cael ei gyflwyno mewn ffordd sy'n lleihau'r baich ar bleidiau a'u staff, llawer ohonynt yn wirfoddolwyr.

Cymryd camau gorfodi angenrheidiol a chymesur i hyrwyddo cydymffurfiaeth â'r gyfraith a delio yn addas â'r rhai nad ydynt yn cydymffurfio.

- Rydym yn anelu at sicrhau cydymffurfiaeth trwy gyfarwyddyd a hyfforddiant i helpu'r rhai yr ydym yn eu rheoleiddio i ddilyn y rheolau ar gyllid pleidiau ac etholiadau, ond rydym yn defnyddio dull teg, diduedd a chymesur pan fydd rheolau yn cael eu torri.

- Mewn achosion o beidio cydymffurfio, mae ein pwerau presennol yn caniatáu i ni gymryd nifer gyfyngedig o gamau yn unig, gan gynnwys rhoi dirwyon ar gyfer ffurflenni a gyflwynir yn hwyr, mynnu bod rhoddion nas caniateir yn cael eu fforffedu, a chyfeirio achosion at yr heddlu.

- Fe wnaethom asesu 104 achos potensial o beidio cydymffurfio gyda chyfreithiau cyllid pleidiau ac etholiadau yn 2009–10. O'r rhain, nid oedd 53 achos yn bodloni ein meini prawf i gyfiawnhau ymchwiliad neu adolygiad ac fe'u caewyd yn y cyfnod asesu cyntaf.

- Fe wnaethom gwblhau 48 adolygiad achos yn ystod y flwyddyn.[25] Caewyd pump ar hugain pan wnaethom ddarganfod nad oedd methiant i gydymffurfio. Mewn 14 achos fe wnaethom ganfod bod y rheolau wedi eu torri ond dod i'r casgliad nad oedd angen unrhyw gamau pellach gan fod y blaid neu'r unigolyn dan sylw, yn dilyn cyswllt gyda ni, wedi cywiro'r gwallau yn y ffurflenni neu gyflwyno'r wybodaeth ofynnol dan y rheolau. Caewyd nifer o achosion oherwydd ein bod yn ystyried nad oedd er budd y cyhoedd i gymryd camau pellach. Roedd y rhain yn cynnwys rhai achosion lle mai'r unig lwybr fyddai ar ôl i'r Comisiwn fyddai cyfeirio'r achos at yr heddlu i'w ymchwilio. O'r naw achos a gaewyd yn dilyn camau pellach, caewyd pum achos yn dilyn fforffedu gwirfoddol ar roddion nas caniateir.

- Caewyd dau ymchwiliad gyda chanfyddiad na fu unrhyw fethiant i gydymffurfio. Trosglwyddwyd un adolygiad achos i'n tîm cyngor a chyfarwyddyd iddynt roi cyngor i'r blaid ar gydymffurfio ag ymrwymiadau dan PPERA. Fe wnaethom ddatrys ychydig dan 94% o'r achosion yn ymwneud â thorri rheolau posibl cyn pen chwe mis.

- Fe wnaethom adolygu 818 datganiad cyfrifon ar gyfer 2008[26] a chodi 53 cosb am beidio cyflwyno datganiadau cyfrifon neu gyflwyno yn hwyr: 42 i bleidiau gwleidyddol ac 11 i unedau cyfrifo.

25 Roedd rhai achosion yn dal i gael eu hystyried ar ddiwedd y cyfnod.

26 Defnyddiodd nifer fechan o bleidiau gyfnod cyfrifo gwahanol ond mae'r rhan fwyaf yn defnyddio Rhagfyr fel diwedd blwyddyn.

Gweithgareddau allweddol

- Cododd y nifer oedd yn cydymffurfio â'r dyddiadau cau ar gyfer ffurflenni statudol o 92% yn 2008 i 96% yn 2009. Mae cosbau sifil yn berthnasol pan fydd pleidiau yn cyflwyno ffurflenni yn hwyr neu ddim yn cyflwyno ffurflenni. Cyhoeddwyd saith deg a phump o gosbau rhwng 1 Ebrill 2009 a 31 Mawrth 2010. Roedd dau ar bymtheg yn ymwneud â ffurflenni rhoddion neu fenthyciadau, pump yn ymwneud â ffurflenni gwariant ymgyrch a 53 yn ymwneud â datganiadau cyfrifon. Talwyd deg cosb, sef cyfanswm o £3,400. Pan fydd cosb yn cael ei chyhoeddi mae gan blaid hawl i apelio yn erbyn i'r gosb gael ei gweithredu neu ei holrhain. Fe wnaethom roi heibio 34 cosb am amrywiaeth o resymau. Roedd y rhain yn cynnwys salwch trysoryddion a ffurflenni yn hwyr oherwydd gweithredoedd tu hwnt i reolaeth y blaid, gan gynnwys oherwydd amharu ar y post. Mae tri deg ag un o gosbau ar hyn o bryd heb eu talu bydd y rhain yn cael eu hadolygu ar sail gwybodaeth a ddarperir gan y blaid neu sydd ar gael am gyllid y blaid.

- Fe wnaethom gynnal gwiriadau ar ba mor ganiataol oedd pob rhodd y rhoddwyd adroddiad i ni arnynt a gweithio gyda'r pleidiau i sicrhau eu bod yn rhoi gwybodaeth gywir.

- Fe wnaeth y pleidiau gwleidyddol fforffedu mwy na £10,000 o roddion nas caniateir yn wirfoddol yn 2009–10. Fe wnaethom ddwyn dau o'n hymchwiliadau mwyaf cymhleth yn ymwneud â rhoddion nas caniateir honedig i ben, y ddau yn ymwneud â meysydd o'r gyfraith nad oeddynt wedi eu profi hyd yn hyn. Gweler tudalen 16 am ragor o wybodaeth.

- Pan ddaw'r pwerau a'r cosbau newydd yn y Ddeddf PGE i rym byddant yn ein galluogi i ymdrin yn fwy addas â'r rhai nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheolau ar gyllid etholiadau. Byddwn yn medru gweithredu amrywiaeth ehangach o gosbau ariannol a gofyn i blaid gymryd camau penodol i gydymffurfio. Am ragor o wybodaeth ar ein pwerau newydd, gweler tudalen 11.

Tabl 9: Nifer a ffynhonnell yr achosion newydd yr ymdriniwyd â nhw[27]

Categori[28]	Cyfanswm	Mewnol	Allanol
Achosion a aseswyd	104	39	65

27 Mae'r ffigyrau yn nhabl 9 ar gyfer y 12 mis o 1 Ebrill 2009 i 31 Mawrth 2010. Roedd 11 achos wedi eu cario drosodd o 2008-9.

28 Mae 'Mewnol' yn cyfeirio at achosion a ddynodwyd o ganlyniad i'n gweithgaredd monitro ni ein hunain. Mae 'Allanol' yn cyfeirio at achosion a ddygwyd i'n sylw gan ffynonellau allanol.

Gweithgareddau allweddol

Tabl 10: Nifer o achosion a ddatryswyd neu heb eu datrys[29]		
Categori	Cyfanswm	Amser i ddatrys ar gyfartaledd
Cau yn y cam asesu cychwynnol	53	2.5 diwrnod gwaith (Targed o 90% o fewn 5 diwrnod gwaith)
Adolygiad achos wedi ei gau: Dim methiant i gydymffurfio	25	72 diwrnod calendr (Targed o 90% o fewn 90 diwrnod calendr yn dilyn yr asesiad cychwynnol)
Adolygiad achos wedi ei gau: Methiant i gydymffurfio – Dim camau wedi eu cymryd	14	
Adolygiad achos wedi ei gau: Methiant i gydymffurfio – Cymerwyd camau	9	
Ymchwiliadau wedi eu cau: Dim methiant i gydymffurfio	2	446 diwrnod calendr (Targed o 90% o fewn 6 mis i'r asesiad cychwynnol)[30]
Ymchwiliadau wedi eu cau: Methiant i gydymffurfio – Ni chymerwyd unrhyw gamau	0	
Achosion wedi eu cyfeirio at bolisi a chyfarwyddyd	1	15 diwrnod calendr
Achosion wedi eu gohirio ar ddiwedd y cyfnod adrodd[31]	4	0
Achosion yn agored ar ddiwedd y flwyddyn	7	0

Tabl 11: Nifer o wiriadau am roddion a ganiateir[32]	
Chwarter	Gwiriadau
1	827
2	1,151
3	1,032
4	1,510
Cyfanswm	4,520

29 Mae'r ffigyrau yn nhabl 10 ar gyfer y 12 mis o 1 Ebrill 2009 i 31 Mawrth 2010.

30 Tra rydym yn anelu at gwblhau ymchwiliadau o fewn chwe mis i'r asesiad cychwynnol bydd yr amser a dreulir ar bob ymchwiliad yn amrywio yn ôl y materion penodol a godir gan natur yr ymchwiliadau unigol, argaeledd a maint y dystiolaeth a'r materion cyfreithiol cysylltiedig. Ym mhob achos byddwn yn cymryd yr amser gofynnol i gynnal ymchwiliad trylwyr a theg.

31 Gohiriwyd i aros am benderfyniad barnwrol.

32 Rydym yn cynnal gwiriadau ar yr holl roddion y rhoddir adroddiad arnynt i asesu a ydynt, ar sail y wybodaeth sydd ar gael, o ffynonellau (ee unigolyn neu gwmni) sy'n cael rhoi rhoddion dan PPERA.

Ein gweithgareddau gorfodi

Rydym yn edrych yn ofalus ar achosion pan fydd posibilrwydd o beidio cydymffurfio â'r rheolau ar gyllid pleidiau ac etholiadau. Mae'r rhain yn cynnwys peidio darparu gwybodaeth ariannol mewn pryd neu dderbyn rhoddion nas caniateir. Pwerau cyfyngedig sydd gennym o ran cyflwyno gwybodaeth yn hwyr a dim ond cosbau sefydlog allwn ni eu rhoi. Rydym yn ystyried cyflwyniadau ar gosbau yn ofalus pan fydd er budd y cyhoedd i wneud hynny. Pryd bynnag y bydd peidio â chydymffurfio, rydym yn gweithio gyda'r rhai sydd wedi methu cydymffurfio i sicrhau eu bod yn cydymffurfio yn y dyfodol. Yn ychwanegol at roi dirwyon, rydym yn ystyried camau addas eraill, gan gynnwys rhoi cyfarwyddyd a chyfeirio achosion at yr heddlu.

Y prif feysydd y gwnaethom eu hystyried yn y 48 adolygiad achos a gaewyd yn ystod y flwyddyn oedd:

- ansawdd cadw cofnodion gan unedau cyfrifo pleidiau
- peidio â chyflwyno ffurflenni treuliau ymgeiswyr
- rhoddion a all fod yn rhai nas caniateir
- peidio rhoi adroddiad ar ddata ariannol.

Mae gennym bwerau i fynnu bod pleidiau yn fforffedu rhoddion nas caniateir, ac yn ystod y flwyddyn fe wnaeth y pleidiau fforffedu mwy na £10,000 yn wirfoddol. Mewn achos cyfredol rhwng y Comisiwn Etholiadol a Phlaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (UKIP), clywodd y Goruchaf Lys apêl UKIP ym Mehefin 2010, ac rydym yn aros am benderfyniad gan y Llys.

Fe wnaethom ddwyn dau o'n hymchwiliadau mwyaf cymhleth hyd yn hyn i ben, y ddau yn ymwneud â meysydd o'r gyfraith nad oedd wedi eu profi cyn hyn. Yn Nhachwedd 2009, fe wnaethom gyhoeddi canlyniad yr ymchwiliad i roddion o dros £2.4m a roddwyd gan y cwmni 5th Avenue Partners Ltd i'r Democratiaid Rhyddfrydol.[33] Fe wnaethom edrych a oedd y cwmni yn rhoddwr a ganiateir a'i fod wedi ei gofnodi yn gywir fel y gwir roddwr. Fe wnaeth yr ymchwiliad ystyried swm sylweddol o dystiolaeth ac roedd yn golygu ystyried nifer o feysydd yn y gyfraith nad oedd wedi eu profi yn y llysoedd cyn hyn. Fe ddaethom i'r casgliad bod y cwmni yn rhoddwr a ganiateir a bod y rhoddion wedi cael eu rhoi gan y cwmni.

Ym Mawrth 2010, fe wnaethom gyhoeddi canlyniad ein hymchwiliad i roddion y rhoddwyd adroddiad i ni arnynt gan y Blaid Geidwadol gan Bearwood Corporate Services Limited (BCS).[34] Roedd yr ymchwiliad hwn eto yn golygu ystyried swm sylweddol o dystiolaeth a nifer o faterion cyfreithiol. Fe ddaethom i'r casgliad bod BCS yn rhoddwr a ganiateir ac nad oedd unrhyw sail i ddod i'r casgliad bod y rhoddwr yn unrhyw un heblaw BCS. Fe wnaethom ganfod nad oedd digon o dystiolaeth i ddod i'r casgliad nad oedd y blaid yn sicr pwy oedd y rhoddwr wrth dderbyn y rhoddion.

Fe wnaethom gynnal ymchwiliad trylwyr i achos BCS gan ddefnyddio'r dystiolaeth oedd ar gael i ni. Ond, roedd ein pwerau yn gyfyngedig gan gynnwys diffyg grym i fynnu bod tystion yn mynychu cyfweliad a diffyg grym i fynnu tystiolaeth gan unrhyw un heblaw'r rhai yr ydym yn eu rheoleiddio. Bydd y Ddeddf PGE, pan gaiff ei gweithredu yn llawn, yn cyflwyno newidiadau i'n pwerau gorfodi gan ein galluogi i fynnu tystiolaeth gan unrhyw un sydd â gwybodaeth berthnasol a'n galluogi i alw ar unigolion i ddod i gyfweliad.

33 Am ragor o wybodaeth am yr achos yn ymwneud â 5th Avenue Partners Ltd a'r Democratiaid Rhyddfrydol, gweler www.electoralcommission.org.uk/_media/executive-summary/5th-avenue-statement-case-summary-11-09.pdf.

34 Am wybodaeth am yr achos yn ymwneud â Bearwood Corporate Services Limited a'r Blaid Geidwadol, gweler www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/pdf_file/0009/87219/Case-summary-Bearwood-Corporate-Services.pdf.

Edrych ymlaen

Byddwn yn parhau i weithio i sicrhau tryloywder a hygrededd cyllid pleidiau ac etholiadau yn 2010–11. Byddwn yn cael trefn derfynol ac yn cyhoeddi ein polisi gorfodi newydd, gan ddatgan sut y byddwn yn defnyddio'r pwerau newydd a'r cosbau yn y Ddeddf PGE. Byddwn hefyd yn darparu cyfarwyddyd newydd a gwell i'r rhai yr ydym yn eu rheoleiddio, ar sail yr adolygiad o'n cyfarwyddyd a gynhaliwyd yn 2009–10. Bydd ein hadroddiad ar wariant yn etholiad cyffredinol y Deyrnas Unedig yn dadansoddi sut y gwnaeth y pleidiau ariannu eu hymgyrchoedd ar gyfer yr etholiad a sut y gwnaethant wario eu harian. Fe fyddwn yn parhau i sicrhau tryloywder trwy gyhoeddi'r wybodaeth ariannol y mae'n rhaid i bleidiau ei chyflwyno i ni, a chymryd camau addas pan fydd y rheolau yn cael eu torri.

Amcan 2 – Cofrestri etholiadol cyflawn a chywir a gefnogir gan broses gofrestru etholiadol a gynhelir yn dda

Rhaid i gofrestri etholiadol fod mor gyflawn a chywir ag sy'n bosibl fel bod pawb sy'n gymwys i bleidleisio yn medru gwneud hynny, ac nad oes unrhyw gofnodion ffug. Mae arnom eisiau i bobl sydd â'r hawl i bleidleisio fod yn hyderus bod cofrestru i bleidleisio mor syml, hygyrch a diogel â phosibl. Mae arnom hefyd eisiau iddynt dderbyn gwasanaeth cyson o safon uchel lle bynnag y maent yn byw.

Swyddogion Cofrestru Etholiadol (SCE) sy'n gyfrifol am lunio a chynnal cofrestri etholiadol cyflawn a chywir.[35] Mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol am y fframwaith cyfreithiol ac ariannu sy'n galluogi SCE i gyflawni eu cyfrifoldebau.

Ein nod yw gwella safonau wrth gofrestru pleidleiswyr. Rydym yn monitro perfformiad SCE trwy ein fframwaith safonau perfformiad a'n rhaglen ymchwil, i dynnu sylw at fannau lle mae cofrestru etholiadol yn cael ei gynnal yn dda a herio SCE pan na fydd. Rydym hefyd yn herio'r Llywodraeth pan fydd angen newid y fframwaith cyfreithiol i wella gwasanaethau a dderbynnir gan etholwyr. Rydym yn darparu ystod eang o gefnogaeth i yrru gwelliannau mewn arferion cofrestru etholiadol yn eu blaenau.

Rydym yn parhau i ddatblygu dealltwriaeth o'r graddau y mae cofrestri yn anghyflawn neu anghywir a sut i ymdrin â'r gwendidau hyn. Rydym yn craffu cynigion ar gyfer newidiadau i gyfraith etholiadol i sicrhau bod buddiannau pleidleiswyr yn cael eu rhoi yn gyntaf.

Rydym yn rhedeg ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus trwy'r Deyrnas Unedig i sicrhau bod pobl yn deall sut i gofrestru i bleidleisio a'u hannog i wneud hynny. Mae'r ymgyrchoedd hyn yn targedu grwpiau sydd â llai ohonynt wedi cofrestru fel pobl ifanc, pobl sydd wedi symud i fyw yn ddiweddar, pobl mewn llety preifat ar rent a rhai cymunedau lleiafrifoedd ethnig.

Fe wnaethom groesawu penderfyniad y Senedd i gyflwyno cofrestru etholiadol unigol (CEU) yn y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau 2009 (Deddf PGE). Mae'r system gyfredol o gofrestru aelwydydd wedi bod yn destun beirniadaeth barhaus oherwydd y posibilrwydd o dwyll ar raddfa fawr, yn ogystal â'i ffocws hen ffasiwn ar safle 'pennaeth yr aelwyd'. Dan CEU, byddai SCE yn gofyn i bobl ddarparu tri darn o 'wybodaeth adnabod' (llofnod, dyddiad geni, a rhif yswiriant cenedlaethol) cyn cael eu cofrestru i bleidleisio. Mae'n gosod cyfrifoldeb am gofrestru ar unigolion yn hytrach nag un unigolyn ar aelwyd, a bydd yn helpu i foderneiddio'r system etholiadol. Mae'r Ddeddf PGE hefyd yn darparu i SCE dreialu defnyddio data o ffynonellau gwybodaeth cyhoeddus eraill i helpu i wella cyflawnder a chywirdeb y cofrestri, a byddwn yn gyfrifol am werthuso unrhyw gynlluniau treialu o'r fath.

Mae Gogledd Iwerddon wedi defnyddio system CEU ers 2002, ac rydym yn edrych ymlaen at gael defnyddio'r profiad o weithredu'r system CEU yno i roi gwybodaeth ar gyfer y newid ym Mhrydain Fawr. Byddwn yn chwarae rôl allweddol wrth asesu llwyddiant y symudiad tuag at CEU.

35 Yng Ngogledd Iwerddon, cyfrifoldeb y Prif Swyddog Etholiadol yw hyn.

Dangosyddion perfformiad allweddol

Mesur	Targed	Perfformiad
Mesuriadau allbwn a chanlyniad[36]		
Canran o etholwyr ym Mhrydain Fawr y mae eu SCE yn cyrraedd neu'n well na'r safonau perfformiad yn ymwneud â chofnodion cofrestru etholiadol cyflawn a chywir	Tuedd at wella o'i gymharu â ffigwr 2008–9 o **84%** (tua 37.9m o etholwyr allan o 45m)	**96%** (tua 43.3m o etholwyr allan o 45.3m)
Canran o SCE sy'n cyrraedd neu'n mynd tu hwnt i'r safonau perfformiad yn ymwneud â a) hygrededd b) cyfranogiad c) cynllunio gweithgareddau yng nghyswllt cadw cofrestr etholiadol gyflawn a chywir	Tuedd at wella o'i gymharu â ffigyrau 2008–9 ar safonau ar draws y maes hwn: a) Hygrededd – **63%** (255 o 404 SCE) b) Cyfranogiad – **31%** (125 o 404 SCE) c) Cynllunio – **75%** (303 o 404 SCE)	a) Hygrededd – **85%** (322 o 379 SCE) b) Cyfranogiad – **56%** (212 SCE) c) Cynllunio – **90%** (341 SCE)
Canran o ymholiadau gan SCE (dros y ffôn/trwy e–bost) a gydnabuwyd ar y diwrnod gwaith cyntaf ac yr ymatebwyd yn llawn iddynt cyn pen tri diwrnod gwaith	**100%**	**98%** (296 o 301 ymholiad)

(Parhad drosodd)

36 Mae mesuriadau allbwn a chanlyniad yn ein helpu i fonitro gweithgareddau yr ydym naill ai yn eu rheoli yn llawn neu'n rhai yr ydym yn medru dylanwadu yn sylweddol arnynt.

Dangosyddion perfformiad allweddol (parhad)

Mesur	Targed	Perfformiad
Mesuriadau allbwn a chanlyniad		
Y nifer o ffurflenni cofrestru a archebwyd o ganlyniad i ymgyrchoedd gwybodaeth a redwyd gan y Comisiwn (gan gynnwys ymgyrchoedd a redwyd yn y cyfnod cyn yr etholiadau)	Cyflawni targedau ymateb ar gyfer ymgyrchoedd etholiad. Tuedd at wella ar gyfer ymgyrchoedd eraill, e.e. ymgyrchoedd micro a anelwyd at fyfyrwyr,[37] dinasyddion Prydain dramor a'r rhai sydd wedi symud o un tŷ i'r llall yn ddiweddar	Lawr lwythwyd tua 150,000 o ffurflenni cofrestru o'n gwefan, neu wedi eu harchebu o'n canolfan galwadau yn ystod ymgyrch etholiad Senedd Ewrop a'r etholiad lleol yn Lloegr, o'u cymharu â tharged o 50,000. Fe wnaeth 7,400 dinesydd Prydeinig dramor lawr lwytho ffurflenni cofrestru yn ystod ein hymgyrch yn 2009, **99%** yn fwy nag yn ystod ein hymgyrch yn 2008. Fe wnaeth yr ymgyrch i rai oedd yn newid aelwyd greu tua 50,000 o gofrestriadau newydd o'u cymharu â 84,500 yn 2008 (er ein bod wedi anfon 90,000 yn llai o becynnu cofrestru allan yn 2009).
Dangosyddion cynnydd[38]		
Nifer yr etholwyr ar y cofrestri etholiadol a) llywodraeth leol y Deyrnas Unedig a b) Seneddol y Deyrnas Unedig[39]	Tuedd at wella ar ffigyrau 2008–9 o: a) 46,147,877 b) 45,194,449	a) 46,455,890, i fyny tua 308,000 b) 45,420,808, i fyny tua 226,000
Canran o gyhoedd y Deyrnas Unedig sy'n dweud eu bod yn gwybod sut i gofrestru i bleidleisio	Tuedd at wella ar ffigwr 2008–9 o **88%**	**89%**[40]

Fe aethom tu hwnt i fwyafrif ein targedau yn ystod 2009–10. Er bod perfformiad SCE o'u cymharu â'n safonau perfformiad wedi gwella, mae rhai bylchau mewn perfformiad y mae'n rhaid eu trin (gweler tudalen 25). Fe aeth ein hymgyrchoedd ymwybyddiaeth cyhoeddus ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop ac etholiadau lleol Lloegr ac ar gyfer dinasyddion Prydain sy'n byw dramor ym mhell tu hwnt i'n targedau, er na wnaeth ein hymgyrch a anelwyd ar y rhai a newidiodd aelwyd yn ddiweddar berfformio cystal ag y disgwyliwyd.

37 Ni chynhaliwyd ymgyrch myfyrwyr yn 2009–10. Fe integreiddiwyd y gwaith hwn i'r ymgyrch ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y Deyrnas Unedig.

38 Dangosyddion cynnydd yn cynnig gwybodaeth i ni sy'n helpu i dargedu ein gweithgareddau.

39 Ffynhonnell data – ONS, Ystadegau Etholiadol y Deyrnas Unedig, 2008.

40 Ffynhonnell data – Ipsos-MORI, Rhagfyr 2009.

Gweithgareddau allweddol

Dynodi'r rhwystrau a'r atebion i gynnal cofrestri cyflawn a chywir, i sicrhau bod polisi ac arferion cofrestru etholiadol yn cael eu cefnogi gan dystiolaeth am yr hyn sy'n gweithio.

- Yn 2009–10, fe wnaethom gynnal gwaith ymchwil i gyflawnder a chywirdeb cofrestri etholiadol. Roedd ein hadroddiad *The completeness and accuracy of electoral registers in Great Britain*,[41] a gyhoeddwyd ym Mawrth 2010, yn adolygu cyfraddau cofrestru ac yn edrych ar y ffactorau sy'n gysylltiedig â than gofrestru. Darganfu'r gwaith ymchwil ei bod yn ymddangos bod cyfraddau cofrestru wedi sefydlogi ers 2006, a bod peidio cofrestru a diffyg cywirdeb yn gysylltiedig â rhai grwpiau cymdeithasol penodol, pobl ifanc 17–24 oed yn arbennig, a phobl o gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig. Fe wnaethom hefyd ddarganfod bod pobl yn newid cyfeiriad yn rheswm arwyddocaol dros beidio â chofrestru. Am ragor o wybodaeth ar ein hymchwil ar gofrestri, gweler isod.

Dal tueddiadau mewn cofrestru etholwyr

Rydym yn cynnal rhaglen barhaus o ymchwil i ddeall sut a pham y mae cofrestri yn anghyflawn neu yn anghywir a dynodi sut i wneud gwelliannau. Rhoddodd ein hadroddiad yn 2010 – *The completeness and accuracy of electoral registers in Great Britain* – ddarlun o gofrestri etholiadol mewn wyth awdurdod lleol, yn ogystal â defnyddio data cenedlaethol arall, i roi darlun o dueddiadau sy'n newid mewn cofrestru ym Mhrydain Fawr.

Dangosodd yr adroddiad bod cyfraddau cofrestru yn ymddangos fel petaent wedi sefydlogi ers 2006. Ond, oherwydd bod amcangyfrifon yn dangos dirywiad mewn lefelau cofrestru yng nghyfnod cynnar y ddegawd, gallai lefel y ganran sydd heb gofrestru fod yn uwch nag amcangyfrif 2001 o 8–9% . Byddwn yn gwneud amcangyfrif newydd o'r lefel gofrestru ym Mhrydain Fawr ar ôl Cyfrifiad 2011.

Edrychodd yr ymchwil yn fanwl ar lefelau cofrestru yn yr ardaloedd astudiaeth achos. Fe wnaethom ddarganfod bod peidio cofrestru a diffyg cywirdeb yn gysylltiedig â rhai grwpiau cymdeithasol penodol, yn arbennig pobl ifanc rhwng 17–24 oed (56% heb gofrestru yn y sampl o ardaloedd) a phobl o gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig (31% heb gofrestru). Mae pobl yn newid cyfeiriad yn rheswm sylweddol dros beidio â chofrestru. Yn yr ardaloedd sampl, dim ond 21% o'r rhai oedd yn byw yn eu cyfeiriad presennol ers blwyddyn neu lai oedd wedi cofrestru i bleidleisio. Roedd hyn yn dangos nad oedd pobl yn defnyddio'r ddarpariaeth gofrestru barhaus ar ôl symud tŷ.

Fe wnaethom ddefnyddio canfyddiadau'r ymchwil i wneud argymhelliad i lunwyr polisi'r Llywodraeth ac awdurdodau lleol ar sut y gellid gwella lefelau cofrestru yn y tymor hirach. Roedd y rhain yn cynnwys ystyried amseriad y canfas blynyddol ac adolygu dyrannu cyllid. Byddwn yn parhau i gynnal ein gweithgaredd ymwybyddiaeth cyhoeddus ein hunain, asesu perfformiad y SCE a chefnogi'r rhai sy'n ymwneud ag annog cofrestru trwy gyfarwyddyd a hyfforddiant.

41 Y Comisiwn Etholiadol, *The completeness and accuracy of electoral registers in Great Britain*, www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/pdf_file/0018/87111/The-completeness-and-accuracy-of-electoral-registers-in-Great-Britain.pdf.

Gweithgareddau allweddol

> Rydym yn darparu cefnogaeth un i un i weinyddwyr etholiadol trwy linell gymorth ar y ffôn. Yn 2009–10 fe wnaethom dderbyn bron i 2,000 o alwadau i'r gwasanaeth hwn ar bynciau fel cofrestru a phleidleisio absennol.

Cefnogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol a grwpiau allweddol eraill trwy ddarparu cyfarwyddyd a mynediad at offer ac adnoddau addas i'w galluogi i gynnal cofrestri etholiadol cyflawn a chywir a darparu proses gofrestru etholiadol a gynhelir yn dda sy'n caniatáu i etholwyr gofrestru yn hawdd a diogel.

- Fe wnaethom gyhoeddi cyfarwyddyd cynhwysfawr i SCE – gan gynnwys diweddariadau i'r llawlyfr *Rheoli cofrestru etholiadol ym Mhrydain Fawr* – i'w cefnogi wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau cyn etholiad cyffredinol y Deyrnas Unedig. Fe wnaethom ddarparu ystod o adnoddau i helpu SCE i gynllunio a chynnal y canfas blynyddol. Roedd hyn yn cynnwys cyfarwyddyd, cynllunwyr, logiau risg a chyflwyniadau ar gyfer sesiynau hyfforddi staff. Fe wnaethom hefyd redeg seminarau cyn etholiadau Mehefin 2009.

- Rydym yn darparu cefnogaeth un i un i weinyddwyr etholiadol trwy linell gymorth ar y ffôn. Rydym yn olrhain galwadau a dynodi problemau sy'n ailadrodd fel ein bod yn medru diweddaru ein cyfarwyddyd cyhoeddedig. Yn 2009–10 fe wnaethom dderbyn bron i 2,000 o alwadau i'r gwasanaeth hwn ar bynciau fel cofrestru a phleidleisio absennol.

- Mae gweinyddwyr etholiadol mewn sefyllfa unigryw i sicrhau bod y cofrestri etholiadol yn rhydd o unrhyw dwyll. Rydym yn darparu cyfarwyddyd manwl yn ein llawlyfr i SCE ar adnabod ymgais i dwyllo, gan gynnwys ceisiadau amheus am bleidleisiau, ac yn nodi'r camau y dylid eu cymryd pan amheuir twyll. Gweler tudalen 29 am fwy o wybodaeth ar dwyll etholiadol.

Monitro, tynnu sylw a herio'r gwasanaeth a ddarperir i etholwyr gan SCE trwy ein fframwaith safonau perfformiad, i wella gwasanaethau cofrestru etholiadol yn lleol.

- Fe wnaethom gyhoeddi ein hail asesiad o berfformiad o'i gymharu â'n safonau perfformiad ar gyfer SCE ym Mawrth 2010.

- O'i gymharu â'r asesiad cyntaf, a gynhaliwyd yn Ebrill 2009, dangosodd yr ail asesiad beth gwelliant ar draws y safonau. Ond, mae bylchau mewn perfformiad SCE yn parhau. Roedd y perfformiad ar ei wanaf yn y maes cyfranogiad, yn arbennig 'ymwybyddiaeth gyhoeddus', lle nad oedd 41% o SCE yn cyrraedd y safon. Fe wnaethom ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer gwelliannau i ymdrin â'r meysydd gwanaf hyn. Yn 2009–10, fe wnaethom gysylltu â'r holl SCE oedd yn tanberfformio i ddynodi'r rhesymau am eu perfformiad gwael ac i ddatblygu dulliau addas i'w wella. Fe wnaethom hefyd ddarparu cyfarwyddyd diwygiedig a thempled offer cynllunio. Rydym am weld yr holl SCE yn cyrraedd y safonau ar gyfer y meysydd perfformiad hyn. Gweler tudalen 25 am ragor o wybodaeth.

- Byddem yn hoffi gweld fframwaith o safonau perfformiad tebyg yn cael eu cyflwyno yng Ngogledd Iwerddon. Fe fuom yn gweithio gyda'r Prif Swyddog Etholiadol ar gyfer Gogledd Iwerddon i dreialu safonau etholiad a chofrestru o Ionawr i Fehefin 2010. Cytunodd y Prif Swyddog Etholiadol i gasglu tystiolaeth ar etholiadau a chofrestru a byddwn yn asesu ei berfformiad o'i gymharu â'n safonau. Byddwn yn gwirio'r wybodaeth a roddwyd i ni ac yn dynodi gwelliannau ar gyfer y dyfodol.

Gweithgareddau allweddol

Adolygu cynigion gan y Llywodraeth ac eraill am newidiadau i gyfraith cofrestru. Cyflawni cynigion ar sail tystiolaeth i wella'r fframwaith cyfreithiol a gweinyddol ar gyfer cofrestru etholiadol.

- Fe wnaethom groesawu penderfyniad y Senedd i gyflwyno CEU yn y Ddeddf PGE. Mae'n rhoi'r cyfrifoldeb am gofrestru ar unigolion yn hytrach nag un unigolyn ar aelwyd. Bydd hyn yn helpu i foderneiddio'r system etholiadol a chynyddu hygrededd a chywirdeb y gofrestr.

- Bydd symud at system o gofrestru unigol yn newid mawr i'r system gofrestru etholiadol ym Mhrydain Fawr. Rhaid i'r symudiad at CEU gael yr adnoddau priodol a chael ei rheoli'n addas i sicrhau nad yw pleidleiswyr yn llithro oddi ar y gofrestr.

- Yn 2009–10, fe wnaethom yn glir bod raid i Lywodraeth y DU sicrhau bod cynllun clir a chadarn yn cael ei ddatblygu ar gyfer gweithredu CEU. Rydym am sicrhau bod y system newydd yn ei gwneud mor hawdd â phosibl i gofrestru a bod SCE a'r rhai sy'n ymwneud ag etholiadau yn cael cefnogaeth lawn i weithredu'r newidiadau.

- Byddai CEU yn golygu casglu dulliau adnabod personol gan bleidleiswyr, fel dyddiad geni a rhif Yswiriant Gwladol. Fe wnaethom gynnal ymchwil i'r ffyrdd gorau o gyflawni hyn, gan gynnwys adolygu'r dulliau o gynhyrchu ffurflenni casglu dulliau adnabod personol. Mae'n hanfodol i'r dulliau adnabod hyn gael eu dilysu cyn i'r ymgeisydd gael ei ychwanegu at y gofrestr.

- Mae'r Ddeddf PGE yn rhoi rôl allweddol i ni ei chwarae wrth asesu llwyddiant y symudiad o'r system gofrestru gyfredol i CEU.

> "Fe wnaethom groesawu penderfyniad y Senedd i gyflwyno cofrestru etholiadol unigol yn y Ddeddf PGE. Mae'n rhoi'r cyfrifoldeb am gofrestru ar unigolion yn hytrach nag un unigolyn ar aelwyd."

- Yn Hydref 2009 fe wnaethom ymateb i ymgynghoriad Swyddfa Gogledd Iwerddon ar wella gweithdrefnau cofrestru etholiadol yng Ngogledd Iwerddon. Roeddem yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig a nodwyd yn yr ymgynghoriad yn fras, oedd yn cynnwys ymestyn ein fframwaith safonau perfformiad ar gyfer cofrestru ac etholiadau i waith y Prif Swyddog Etholiadol, gan gael gwared â'r gofyn i breswylio am dri mis ar gyfer cofrestru etholiadol yng Ngogledd Iwerddon, a'r Prif Swyddog Etholiadol yn cymryd cyfrifoldeb am weithgaredd ymwybyddiaeth cyhoeddus o ran cofrestru ac etholiadau yng Ngogledd Iwerddon.

- Yn Chwefror 2010 fe wnaethom gyflwyno ein hymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar y newidiadau arfaethedig i'r gofrestr etholiadol a olygwyd. Ein barn ni oedd y dylai cofrestri etholiadol gael eu defnyddio ar gyfer dibenion sy'n gysylltiedig ag etholiadau a refferenda yn unig, gan gydnabod bod y Senedd o'r farn bod dadl ddinesig ehangach dros eu defnyddio yng nghyswllt datrys ac atal troseddau a chyfeirio ar gyfer gwirio credyd. Ond, fe wnaethom ail ddatgan ein safbwynt na ddylai'r gofrestr fod ar gael ar gyfer dibenion marchnata uniongyrchol a'n hargymhelliad y dylai'r gofrestr a olygwyd gael ei dileu.

Gweithgareddau allweddol

> ‘Yr ymgyrch cyn etholiadau Mehefin 2009 oedd un o’r rhai mwyaf llwyddiannus yn ein hanes – archebwyd 150,000 ffurflen cofrestru pleidleiswyr o’n canolfan alwadau neu eu lawr lwytho o’n gwefan.’

Darparu ymgyrchoedd gwybodaeth cyhoeddus i gynyddu’r gyfran o bobl gymwys sy’n cofrestru i bleidleisio.

- Fe wnaethom gynnal ymgyrch wybodaeth cyhoeddus cyn etholiadau Senedd Ewrop a’r etholiadau lleol yn Lloegr ym Mehefin 2009 i annog pleidleiswyr i gofrestru. Roedd hyn yn cynnwys hysbysebu teledu, yn y wasg ac ar–lein, a dros 500 darn o ddarnau golygyddol ar y cyfryngau a gyrhaeddodd dros 30% o boblogaeth y Deyrnas Unedig. Yr ymgyrch hon oedd un o’r rhai mwyaf llwyddiannus yn ein hanes, gyda mwy na 150,000 o ffurflenni cofrestru pleidleiswyr yn cael eu harchebu gan ein canolfan alwadau neu eu lawr lwytho o’n gwefan, www.fymhleidlaisi.co.uk.

Gwella perfformiad Swyddogion Cofrestru Etholiadol

Rhaid i gofrestru etholiadol fod yn gywir a chyflawn, ac mae SCE yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau bod hyn yn digwydd. Yn 2008 fe wnaethom gyhoeddi 10 safon perfformiad ar gyfer SCE yn Lloegr, yr Alban a Chymru. Fe gawsant eu datblygu i sicrhau dull cyson ar draws Prydain Fawr. Cyn y safonau, nid oedd unrhyw fonitro cenedlaethol nac asesiad o weithgaredd lleol.

Roedd y safonau yn ymdrin ag ystod eang o ddyletswyddau, gan gynnwys gwella cywirdeb a hygrededd y gofrestr a hyrwyddo cyfranogiad. Cynhaliwyd ein hasesiad cyntaf o berfformiad SCE o'i gymharu â'r safonau yn 2008. Yn 2009–10 fe wnaethom gynnal dadansoddiad perfformiad SCE o gymharu â'r safonau am yr ail waith.

Rhoddodd SCE adroddiadau ar ba mor dda yr oeddynt wedi perfformio o gymharu â'r safonau, ac fe wnaethom wirio bron i ddwy ran o dair o'r ffurflenni. Fe welwyd bod peth gwelliant wedi digwydd ers y rownd gyntaf o asesiadau ar draws yr holl safonau. Roedd ychydig dan 96% o'r SCE naill ai'n cyrraedd y tair safon neu yn well na nhw o ran 'cyflawnder a chywirdeb cofnodion cofrestru etholiadol'. Mae hynny'n cymharu gyda 85% oedd yn cyrraedd yr holl safonau neu'n well na hwy yn y maes hwn y llynedd.

Roedd bylchau mewn perfformiad yn parhau. Roedd y perfformiad o'i gymharu â'r safonau o ran cyfranogiad yn wan. Nid oedd pedwar o bob deg SCE yn gwneud digon i hyrwyddo cofrestru etholiadol yn eu cymuned leol. Roedd gwelliant mewn perfformiad ar gyfer y pum safon oedd yn gofyn am gynllun ar bapur, ond mae lle i wella eto.

Yn ystod 2009–10, fe wnaethom ddynodi SCE a wnaeth fethu cyrraedd ein safonau perfformiad a gweithio gyda nhw i yrru gwelliant. Fe wnaethom gyfarfod y SCE yma a hefyd cynhaliwyd seminarau grŵp a chyfarfodydd briffio iddynt a'u staff. Fe wnaethom hefyd adolygu ein cyfarwyddyd a'n hoffer i dargedu meysydd lle'r oedd y perfformiad yn wael, i sicrhau bod pleidleiswyr yn cael gwasanaeth cofrestru etholiadol o'r safon uchaf posibl.

Tabl 12: Canlyniadau asesiad o safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol

Maes	Safon perfformiad	% SCE yn perfformio yn is na'r safon	% SCE yn perfformio ar y safon	% SCE yn perfformio yn well na'r safon
Cyflawnder a chywirdeb y gofrestr etholiadol	Safon 1: Defnyddio ffynonellau gwybodaeth	0.8	38.3	60.9
	Safon 2: Cronfa ddata eiddo	0.0	58.0	42.0
	Safon 3: Ymholiadau o dŷ i dŷ	4.5	73.6	21.9
Hygrededd	Safon 4: Hygrededd	15.3	70.2	14.5
	Safon 5: Cyflenwad a diogelwch	0.0	35.1	64.9

(Parhad drosodd)

Gwella perfformiad Swyddogion Cofrestru Etholiadol (parhad)

Tabl 12: Canlyniadau asesiadau o safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol (parhad)

Maes	Safon perfformiad	% SCE yn perfformio yn is na'r safon	% SCE yn perfformio ar y safon	% SCE yn perfformio yn well na'r safon
Ymwybyddiaeth gyhoeddus	Safon 6: Ymwybyddiaeth gyhoeddus	40.9	51.2	7.9
	Safon 7: Gweithio gyda phartneriaid	13.5	69.1	17.4
	Safon 8: Hygyrchedd a chyfathrebu gwybodaeth	5.8	81.3	12.9
Cynllunio a threfniadaeth	Safon 9: Cynllunio	8.4	78.4	13.2
	Safon 10: Hyfforddiant	1.8	73.4	24.8

Edrych ymlaen

Yn 2010–11 byddwn yn parhau i weithio i sicrhau system gofrestru etholiadol a gynhelir yn dda er budd pleidleiswyr. Bydd gweithredu CEU yn flaenoriaeth. Trwy ein rhaglen ymchwil byddwn yn adeiladu ar ein dealltwriaeth o gyflwr cofrestru etholiadol ar draws y Deyrnas Unedig ac yn paratoi ar gyfer y cyfle y bydd cyfrifiad 2011 yn ei gynnig i gasglu data gwerthfawr ar yr etholaeth. Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein safonau perfformiad i yrru gwelliannau yn y gwasanaeth y mae etholwyr yn ei dderbyn gan eu SCE, a byddwn yn gweithio gyda'r Prif Swyddog Etholiadol dros Ogledd Iwerddon i gyflwyno fframwaith safonau perfformiad yno. Ar ymwybyddiaeth gyhoeddus, byddwn yn parhau i wthio am well canlyniadau o'n gwaith, gan leihau'r swm yr ydym yn ei wario arno.

Amcan 3 – Etholiadau a refferenda a gynhelir yn dda sy'n cynhyrchu canlyniadau a dderbynnir

Mae etholiadau rhydd a theg yn hanfodol ar gyfer democratiaeth. Rhaid i bleidleiswyr deimlo yn hyderus, pan fyddant yn cymryd rhan mewn etholiad, y bydd eu pleidlais yn ddiogel ac y bydd y canlyniad terfynol yn gywir. Rhaid i'r broses o fwrw pleidlais fod mor syml â phosibl, ac ni ddylid cael unrhyw rwystrau diangen i atal pleidleisio.

Swyddogion Canlyniadau (SC) sy'n gyfrifol am gynnal etholiadau yn y Deyrnas Unedig. Llywodraethau'r Deyrnas Unedig a'r Alban sy'n gyfrifol am y fframweithiau cyfreithiol a'r cyllid sy'n galluogi SC i gyflawni eu cyfrifoldebau.

Ein rôl ni yw monitro perfformiad trwy ein fframwaith safonau perfformiad a'n rhaglen ymchwil, i dynnu sylw at y mannau lle mae etholiadau yn cael eu cynnal yn dda ac i herio SC a'r Llywodraeth pan fydd angen gwella'r gwasanaeth a dderbynnir gan yr etholwyr. Mae'r fframwaith safonau perfformiad hefyd yn cynnig offeryn gwerthfawr i sicrhau tryloywder y modd y bydd SC yn cyflawni eu swyddogaethau.

Rydym yn parhau i adolygu rheolaeth etholiadau, a monitro hyder y cyhoedd yn y broses a chanlyniadau etholiadau. Rydym yn cefnogi gwelliannau mewn rheoli etholiadau, ac yn craffu ar gynigon ar gyfer newid cyfreithiol i sicrhau bod buddiannau pleidleiswyr yn cael eu rhoi yn gyntaf.

Rydym yn annog ac yn cefnogi SC i wella eu gallu i gydlynu a rheoli, gan gynnwys gwella strwythurau rheoli etholiadol ym Mhrydain Fawr. Rydym hefyd wedi gwella ein paratoadau ar gyfer rheoli refferenda yn llwyddiannus.

Rydym yn rhedeg ymgyrchoedd gwybodaeth cyhoeddus cyn etholiadau a refferenda i sicrhau bod gan bobl y wybodaeth y mae arnynt ei hangen i bleidleisio yn llwyddiannus.

Dangosyddion perfformiad allweddol

Mesur	Targed	Perfformiad
Mesuriadau allbwn a chanlyniad[42]		
Canran yr etholwyr ym Mhrydain Fawr y mae eu SC yn cyrraedd neu'n mynd tu hwnt i'r safonau perfformiad yn ymwneud â a) cynllunio effeithiol, b) hygrededd a c) gweithgareddau cyfranogiad yng nghyswllt proses etholiadol a gynhelir yn dda	Asesiad newydd	a) **92%** (tua 41.8m o etholwyr allan o bron 45.3m) b) **85%** (38.4m o etholwyr) c) **78%** (35.0m o etholwyr)
Canran o ymholiadau gan SC (dros y ffôn neu trwy e–bost) y rhoddwyd cydnabyddiaeth ar y diwrnod gwaith cyntaf ac yr ymatebwyd yn llawn iddynt cyn pen tri diwrnod gwaith	**100%**	**96%** (1,571 allan o 1,634 ymholiad)
Canran o adroddiadau ar weinyddu etholiadau a gyhoeddwyd cyn pen 18 wythnos o ddiwrnod yr etholiad	**100%**	**67%**
Dangosyddion cynnydd		
Canran o'r cyhoedd yn y Deyrnas Unedig sydd yn dweud eu bod yn gwybod sut i bleidleisio	Tuedd at wella ar ffigwr 2008–9 o **92%**	**93%**[43]
Canran o'r cyhoedd yn y Deyrnas Unedig sy'n fodlon ar y profiad o bleidleisio yn y Deyrnas Unedig	Tuedd at wella ar ffigwr 2008–9 o **75%**	**73%**[44]

Mae ein hasesiad cyntaf o berfformiad SC o'u cymharu â'n safonau wedi sefydlu meincnod y byddwn yn ei ddefnyddio i'n helpu i yrru gwelliannau yn 2010–11. Roeddem ychydig o dan ein targed ar gyfer ymateb i ymholiadau gan SC. Canlyniad i benderfyniad i ohirio'r adroddiad ar etholiadau Senedd Ewrop fel y byddai'r cyhoeddi yn cyd–daro â chychwyn y sesiwn Seneddol newydd oedd yn gyfrifol na wnaethom gyrraedd y targed ar gyfer rhoi adroddiad ar weinyddu etholiadau.

42 Mae mesuriadau allbwn a chanlyniad yn ein helpu i fonitro gweithgareddau yr ydym naill ai yn eu rheoli yn llawn neu'n rhai yr ydym yn medru dylanwadu yn sylweddol arnynt.

43 Ffynhonnell data – ymchwil Ipsos-MORI, 2009.

44 Ffynhonnell data – ymchwil Ipsos-MORI, 2009.

Gweithgareddau allweddol

Gwerthuso'r ffordd y mae etholiadau yn cael eu darparu a gwneud argymhellion i wella hyder yn effeithiolrwydd a hygrededd y broses etholiadol.

- Cyhoeddwyd ein hadroddiad ar weinyddu etholiad Senedd Ewrop ac etholiadau lleol Lloegr Mehefin 2009 yn Hydref 2009. Fe wnaethom ganfod bod yr etholiadau wedi eu cynnal yn dda ac roedd 80% o bobl yn hapus â'r broses o bleidleisio. Ond, roedd problemau o ran cynhyrchu papurau pleidleisio a phleidleisiau trwy'r post mewn nifer gymharol fechan o ardaloedd. Yn Llundain, er enghraifft, roedd y papur pleidleisio yn 70 centimedr o hyd ac roedd pryderon, wrth ei blygu, y gellid gweld rhai elfennau, gan beryglu cyfrinachedd y bleidlais o bosibl. Fe wnaethom adolygu ein cyfarwyddyd i SC yng ngoleuni'r canfyddiadau hyn.

- Fe wnaethom gomisiynu ymchwil i bleidleisio trwy'r post yn yr etholiadau i Senedd Ewrop a'r etholiadau lleol yn Lloegr. Dangosodd y canfyddiadau bod y gyfradd o wrthod pleidleisiau trwy'r post wedi codi ers yr etholiadau Senedd Ewrop a lleol blaenorol. Ar draws pob ardal, y rheswm mwyaf cyffredin dros eu gwrthod oedd dyddiadau geni neu lofnodion nad oedd yn cyfateb, nid nad oeddynt heb eu cynnwys o gwbl. Rhaid cael y ddau ddull adnabod hyn.

- Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i SC wirio o leiaf 20% o'r holl ddatganiadau pleidleisio trwy'r post a ddychwelir, ond fe ddarganfu ein hymchwil bod y rhan fwyaf o SC wedi dilyn ein cyfarwyddyd ac wedi gwirio 100% ar gyfer etholiadau 2009. Rydym eto wedi galw ar y Llywodraeth i wneud gwirio 100% yn orfodol.

- Fe wnaethom hefyd gyhoeddi adroddiadau ar isetholiadau Seneddol y Deyrnas Unedig yng Ngogledd Norwich a Gogledd Ddwyrain Glasgow. Er bod yr etholiadau wedi rhedeg yn llyfn, fe wnaeth ein canfyddiadau ein harwain i wneud nifer o argymhellion, gan gynnwys galw am adolygiad ar y gweithdrefnau ar gyfer galw isetholiadau fel nad yw sedd Seneddol yn y Deyrnas Unedig yn parhau yn wag am yn rhy hir.

Cefnogi SC a rhanddeiliaid allweddol trwy roi cyfarwyddyd a mynediad i offer ac adnoddau addas i'w galluogi i reoli etholiadau a refferenda yn effeithlon ac effeithiol.

> "Ar gyfer etholiadau 2009 fe wnaeth y rhan fwyaf o Swyddogion Canlyniadau ddilyn ein cyfarwyddyd a gwirio 100% o'r datganiadau pleidleisio trwy'r post."

- Fe wnaethom gynhyrchu amrywiaeth eang o adnoddau ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop ac etholiadau lleol Lloegr yn 2009, gan gynnwys llawlyfr cyfarwyddyd manwl ar gyfer SC, llawlyfrau gorsafoedd pleidleisio ac arweiniad ar sut i drin papurau pleidleisio amheus. Fe wnaethom hefyd ddarparu adnoddau i'w defnyddio wrth hyfforddi staff sy'n ymwneud ag etholiadau.

- Rydym yn gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu i sicrhau bod y risg o gamymddygiad etholiadol yn cael ei lleihau a bod camau addas yn cael eu cymryd pan fydd angen hynny. Ym Mhrydain Fawr, fe wnaethom gynhyrchu cyfarwyddyd cynhwysfawr i'r heddlu ar ddatrys ac ymdrin â chamymddygiad etholiadol a chyhoeddi llawlyfrau poced ar blismona etholiadau. Fe wnaethom hefyd ddosbarthu canllawiau cyflym i helpu staff y Post Brenhinol i adnabod arwyddion o dwyll etholiadol.

- Fe wnaethom gynnal digwyddiadau o amgylch y bwrdd a seminarau ar atal a datrys camymddygiad etholiadol i nodi beth ddylai swyddogion yr heddlu a gweinyddwyr etholiadol ei wneud i sicrhau bod pleidleiswyr yn medru bod yn hyderus bod eu pleidlais yn ddiogel.

- Rydym yn gweithio gyda'r heddlu i ddatblygu a chynnal cronfa ddata o honiadau o gamymddygiad etholiadol mewn etholiadau, ac rydym yn rhoi adroddiad ar hyn. Yn etholiadau Senedd Ewrop ym Mehefin 2009, bwriwyd 15.1 miliwn pleidlais. Fe wnaethom ddarganfod mai dim ond 58 achos o gamymddygiad honedig a gofnodwyd, gan awgrymu bod yr etholiadau yn rhydd o unrhyw dwyll etholiadol sylweddol, ac ni heriwyd unrhyw ganlyniad etholiad ar sail camymddygiad.

Perfformiad Swyddogion Canlyniadau o'u cymharu â'n safonau

Rydym am i bleidleiswyr deimlo yn hyderus bod pleidleisio yn syml a diogel lle bynnag y maent yn byw. Fe wnaethom gyflwyno safonau perfformiad ar gyfer rheoli etholiadau ar gyfer SC ym Mawrth 2009 ac adrodd o gymharu â'r safonau hyn yn yr hydref, yn dilyn etholiadau Senedd Ewrop a lleol Lloegr yn 2009. Roedd y safonau yn ymdrin â dyletswyddau pwysig i SC, fel cynllunio ar gyfer etholiadau a sicrhau bod gwybodaeth i bleidleiswyr yn hygyrch fel nad oes dim i'w rhwystro rhag pleidleisio.

Yn 2009, roedd dros 90% o SC yn cyrraedd saith o'r safonau perfformiad. Ond, nid oedd gan nifer sylweddol gynlluniau ffurfiol yn eu lle ar gyfer sicrhau hygrededd – diogelwch – y bleidlais nac ar gyfer cynllunio a darparu gweithgareddau ymwybyddiaeth cyhoeddus.

Fe wnaethom weithredu rhaglen i gefnogi SC i wella eu gwaith yn y meysydd yr oeddynt yn perfformio wanaf ynddynt. Fe wnaethom siarad â SC am baratoi ar gyfer etholiad cyffredinol y Deyrnas Unedig yn 2010, rhoi templedi cynllunio a chyfarwyddyd cynhwysfawr iddynt. Byddwn yn cyhoeddi ein hasesiad a'n dadansoddiad o berfformiad SC yn etholiadau Seneddol y Deyrnas Unedig 2010 yng Ngorffennaf 2010.

Mae'r tabl isod yn dangos canlyniadau'r asesiad o berfformiad SC o gymharu â'n safonau.

Tabl 13: Canlyniadau asesiad o safonau perfformiad Swyddogion Canlyniadau

Maes	Safon perfformiad	% o SC yn perfformio o dan y safon	% o SC yn perfformio ar y safon	% o SC yn perfformio yn well na'r safon
Cynllunio a threfniadaeth	Safon 1: Sgiliau a gwybodaeth y SC	3.2	77.8	19.0
	Safon 2: Prosesau cynllunio yn eu lle ar gyfer etholiad	4.8	65.9	29.3
	Safon 3: Hyfforddiant	1.9	78.8	19.3
Hygrededd	Safon 4: Cynnal hygrededd etholiad	18.8	75.1	6.1
Cyfranogiad	Safon 5: Cynllunio a darparu gweithgaredd ymwybyddiaeth cyhoeddus	11.9	70.9	17.2
	Safon 6: Hygyrchedd gwybodaeth i etholwyr	18.3	74.0	7.7
	Safon 7: Cyfathrebu gwybodaeth i ymgeiswyr ac asiantau	1.3	70.4	28.3

Gweithgareddau allweddol

> Yn etholiadau Senedd Ewrop Mehefin 2009 ym Mhrydain Fawr, bwriwyd 15.1 miliwn o bleidleisiau. Fe wnaethom ganfod mai dim ond 58 achos o gamymddygiad honedig a gofnodwyd.

Monitro, tynnu sylw at a herio'r gwasanaeth a ddarperir i etholwyr gan Swyddogion Canlyniadau trwy ein fframwaith safonau perfformiad, i wella gwasanaethau gweinyddu etholiadol yn lleol.

- Er mwyn helpu i yrru gwelliannau mewn rheolaeth etholiadau fe wnaethom gyflwyno safonau perfformiad i SC ym Mhrydain Fawr. Fe wnaethom asesu perfformiad SC o gymharu â'r safonau hyn – sy'n ymdrin â meysydd yn cynnwys cynllunio, hyfforddiant a chyfranogiad – yn dilyn etholiadau Mehefin 2009, a dynodi nifer o feysydd sydd angen eu gwella.

- Rydym am weld pob SC yn cyrraedd y safonau perfformiad, felly fe wnaethom weithredu rhaglen i yrru gwelliannau cyn etholiadau 2010. Buom yn gweithio gyda SC nad ydynt yn cyrraedd yr holl safonau. Roedd hyn yn cynnwys ymweld ag awdurdodau lleol i wirio'r wybodaeth yr oeddynt wedi ei darparu a chytuno ar gynllun gweithredu i wella perfformiad. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi cyfarwyddyd diwygiedig a chynhyrchu templedi cynllunio manwl.

- Rydym yn gweithio ar weithredu fframwaith safonau perfformiad ar gyfer Gogledd Iwerddon. Gweler tudalen 30 am ragor o wybodaeth am safonau perfformiad SC.

Adolygu cynigion gan y Llywodraeth ac eraill ar gyfer newidiadau i gyfraith etholiadol. Darparu cynigion ar sail tystiolaeth i wella'r fframwaith cyfreithiol a gweinyddol ar gyfer etholiadau.

- Rhaid i gyfarwyddyd i bleidleiswyr a'r deunyddiau a ddefnyddir wrth bleidleisio fod yn glir a syml. Rydym am weld deddfwriaeth i gefnogi defnyddio deunyddiau pleidleiswyr sy'n gyson hygyrch a hawdd eu defnyddio. Roedd ein cyfarwyddyd ar gyfer gweinyddwyr etholiadol *Gwneud eich marc*,[45] a gyhoeddwyd yn Hydref 2009, yn nodi arfer gorau ar gyfer cynhyrchu deunyddiau i bleidleiswyr, dan y cyfyngiadau cyfreithiol cyfredol. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi cyfarwyddyd i lunwyr polisi llywodraeth i ddangos sut y byddem yn hoffi gweld deunyddiau pleidleiswyr, gan gynnwys papurau pleidleisio, yn cael eu cynhyrchu yn y dyfodol. Gweler tudalen 33 am ragor o wybodaeth.

- Rydym yn rhoi sylwadau ar faterion pwysig sy'n ymwneud â phleidleisio ac etholiadau. Rydym yn helpu i siapio polisi trwy ymateb i ymgynghoriadau, a oedd yn cynnwys yn 2009–10:

– Ymgynghoriad ail gam Llywodraeth y DU ar hawliau pleidleisio i garcharorion. Fe wnaethom gadarnhau nad oedd gennym farn ar ba garcharorion ddylai gael pleidlais neu beidio. Ond, fe wnaethom argymell, os oes gan garcharor hawl i bleidlais, y dylai unrhyw garcharor gael ei drin yn yr un modd ag unrhyw etholwr arall.

– Ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar ymestyn hyd datganiad pleidleisiwr o'r gwasanaethau arfog o dair blynedd i bum mlynedd. Er ein bod yn cefnogi datganiad i'r gwasanaethau o bum mlynedd, roeddem yn dadlau mai pum mlynedd mae'n debyg yw'r terfyn uchaf addas ar gyfer hyd datganiad dan y system gofrestru bresennol.

45 Y Comisiwn Etholiadol, *Gwneud eich marc*, http://www.dopolitics.org.uk/cymraeg/?a=81008

Gweithgareddau allweddol

– Dadansoddiad SC Llundain Fwyaf o fanteision cost cyfrif â llaw a chyfrif electronig yn etholiadau Awdurdod Llundain Fwyaf 2012. Roedd ein hymateb yn tanlinellu nifer o egwyddorion allweddol y dylid cadw atynt wrth gyfrif pleidleisiau. Roedd hefyd yn codi pryderon am fylchau yn asesiad mantais o ran costau SC Llundain Fwyaf, yr oeddem ni'n dadlau allai arwain at orbwysleisio manteision e–gyfrif. Fe wnaethom alw am ddadansoddiad mantais cost mwy cadarn ac i nifer o faterion tryloywder a materion eraill gael eu trin cyn i'r contract e–gyfrif gael ei ddyfarnu. Rydym yn siomedig ei bod yn ymddangos na chynigiwyd newidiadau yn dilyn ein hymateb.

▸ Rydym yn parhau i alw ar y Llywodraeth i gyhoeddi strategaeth foderneiddio etholiadol, sy'n cynnig gweledigaeth glir, dymor hir o weinyddu etholiadol yn y Deyrnas Unedig, yn esbonio pam bod angen newid, ac yn nodi sut y bydd y newidiadau dan sylw yn cael eu rheoli. Rhaid i hyn oll gael ei ddatblygu mewn modd sy'n cydnabod pwysigrwydd sylfaenol pleidleiswyr i weithrediad priodol ein system ddemocrataidd.

▸ Yn yr Alban, sefydlwyd Bwrdd Rheoli Etholiadol dros dro, yn cynnwys SCE a SC ar draws yr Alban i gefnogi darparu etholiadau Senedd Ewrop 2009. Chwaraeodd y Bwrdd ran bwysig yn y gwaith o redeg yr etholiadau yn llwyddiannus. Byddem yn hoffi ei weld yn cael ei roi ar seiliau statudol ac i'r Cynullydd Etholiadol gael pwerau i roi cyfarwyddyd i swyddogion lleol. Byddwn yn parhau i gyflwyno'r ddadl i'r Llywodraeth ar gyflwyno cydlynu ar lefel ranbarthol efallai ar ffurf Byrddau Rheoli Etholiadol ar draws Cymru a Lloegr.

> Roedd ein hymgyrch cyn etholiadau Mehefin 2009 yn cynnwys cyfnod o ddarparu gwybodaeth bwysig ar bleidleisio. Yn ystod y cyfnod hwn, bu bron i 234,000 ymweliad â'n gwefan, www.fymhleidlaisi.co.uk.

Darparu ymgyrchoedd gwybodaeth cyhoeddus cyn etholiadau a refferenda i sicrhau bod pobl yn cael y wybodaeth y mae arnynt ei hangen i fedru pleidleisio.

▸ Roedd ein hymgyrch cyn etholiadau Mehefin 2009 yn cynnwys cyfnod o ddarparu gwybodaeth bwysig ar bleidleisio, fel amseroedd agor gorsafoedd pleidleisio a chyfarwyddiadau ar gyfer llenwi papur pleidleisio. Yng Ngogledd Iwerddon roedd yr ymgyrch yn cynnwys gwybodaeth am ofynion adnabod ffotograffig mewn gorsafoedd pleidleisio. Yn ystod y cyfnod hwn, bu bron i 234,000 ymweliad â'n gwefan, www.fymhleidlaisi.co.uk.

Ei gwneud hi'n hawdd gwneud eich marc

Rhaid i ddeunyddiau pleidleiswyr a ddefnyddir mewn gorsafoedd pleidleisio – fel hysbysiad sut i bleidleisio, a'r papurau pleidleisio eu hunain – fod mor hygyrch a hawdd eu defnyddio â phosibl. Gall hysbysiadau gwybodaeth anodd eu darllen fod yn rhwystr sy'n atal pobl rhag pleidleisio, a gall papurau pleidleisio wedi eu dylunio yn wael achosi dryswch, a hyd yn oed godi amheuaeth am degwch y canlyniad.

Yn Hydref 2009 fe wnaethom gyhoeddi *Gwneud eich marc* – cyfarwyddyd cynhwysfawr sy'n nodi sut y gall gweinyddwyr etholiadol gynhyrchu deunyddiau pleidleiswyr hawdd eu defnyddio gan gadw o fewn y cyfyngiadau cyfreithol presennol. Roedd y cyfarwyddyd yn trafod gosodiad papurau pleidleisio, hysbysiadau gorsafoedd pleidleisio a deunyddiau eraill, ac yn darparu gwybodaeth fanwl ar ysgrifennu mewn iaith glir a chynhyrchu deunyddiau dwyieithog. Fe wnaethom hefyd gynnwys offer ymarferol fel rhestr wirio dylunio a thempledi enghreifftiol i ddangos sut y gall y deunyddiau edrych yn ymarferol. Mae *Gwneud eich marc* ar gael ar ein gwefan, www.dopolitics.org.uk, ac fe wnaethom hefyd ddiweddaru ein cyfarwyddyd ehangach i SC a staff gorsafoedd pleidleisio.

Byddem yn hoffi gweld deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno i gefnogi eglurder a hygyrchedd mewn deunyddiau pleidleisio. Oherwydd hyn, fe wnaethom gynhyrchu fersiwn o *Gwneud eich marc* ar gyfer llunwyr polisi llywodraeth, yn nodi egwyddorion dylunio da a fydd yn arwain at weld deunyddiau pleidleiswyr mwy cyson.

Edrych ymlaen

Yn 2010–11 byddwn yn parhau i weithio i sicrhau bod etholiadau a refferenda yn cael eu cynnal yn dda. Bydd ein hadroddiad i etholiadau cyffredinol y Deyrnas Unedig yn 2010 a'r etholiadau lleol yn Lloegr yn gyfle gwerthfawr i asesu pa mor dda y mae'r system ar gyfer rheoli etholiadau yn gweithio ac yn gwneud argymhellion ar gyfer y modd i'w gwella. Bydd hyn yn ychwanegol at yr adroddiad interim a gyhoeddwyd gennym ym Mai 2010, oedd yn ymateb i'r problemau gafodd rhai pobl fel canlyniad i giwiau mewn rhai gorsafoedd pleidleisio.

Bydd ein fframwaith safonau perfformiad, wrth gwrs, yn parhau i chwarae rhan allweddol wrth wella'r gwasanaethau a dderbynnir gan etholwyr. Byddwn hefyd yn ymateb i unrhyw fentrau fydd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig o gwmpas diwygio'r system etholiadol a pharhau i baratoi ar gyfer refferendwm. Bydd hyn yn cynnwys asesu cwestiynau a pharatoi ar gyfer rôl Cadeirydd y Comisiwn fel Prif Swyddog Cyfrif.

Amcan 4 – Trefniadau ffiniau teg ar gyfer etholiadau yn Lloegr

Rhaid i'r broses o lunio ffiniau etholiadol fod yn agored, tryloyw a heb duedd na dylanwad gwleidyddol. Mae cydraddoldeb etholiadol, yn yr ystyr bod pob etholwr yn cael pleidlais o'r un gwerth wrth ethol cynghorwyr lleol, yn egwyddor ddemocrataidd sylfaenol.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gosod ffiniau etholiadol lleol sy'n adlewyrchu'r egwyddor honno ond hefyd yn ystyried hunaniaeth a buddiannau cymunedol. Hyd 31 Mawrth 2010 yn Lloegr, roedd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan Bwyllgor Ffiniau Lloegr; pwyllgor statudol o'r Comisiwn Etholiadol.

Yng nghyswllt argymhellion y Pwyllgor ar gyfer newidiadau i strwythur llywodraeth leol a/neu ffiniau gweinyddol, roedd yn rhoi adroddiadau yn uniongyrchol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol yng nghyswllt awdurdodau unedol.

Trosglwyddodd y Ddeddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009 y cyfrifoldeb am osod ffiniau llywodraeth leol o'r Pwyllgor Ffiniau dros Loegr i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Lloegr a gychwynnodd ar ei waith ar 1 Ebrill 2010.

Dangosyddion perfformiad allweddol

Mesur	Targed	Perfformaid
Mesuriadau allbwn a chanlyniadau[46]		
Canran o randdeiliaid sy'n fodlon ar y broses adolygu	Tuedd at wella ar **68%** (2007–8)	**72%**
Canran o adolygiadau a gychwynnwyd yn 2009–10 sy'n cael eu cwblhau o fewn yr amserlen a gynlluniwyd (fel sy'n cael ei nodi ar ddechrau pob adolygiad)	Monitro parhaus	Adolygiadau a gychwynnwyd yn 2009–10 yn dal ar y gweill.

Roedd y Pwyllgor yn falch ei fod wedi cynyddu'r ganran o randdeiliaid oedd yn fodlon ar y broses adolygu. Oherwydd yr amserlenni a gynlluniwyd ar gyfer yr adolygiadau a gychwynnwyd yn 2009–10, ni chwblhawyd yr un ohonynt o fewn y flwyddyn ariannol honno.

46 Mae mesuriadau allbwn a chanlyniad yn ein helpu i fonitro gweithgareddau yr ydym naill ai yn eu rheoli yn llawn neu'n rhai yr ydym yn medru dylanwadu yn sylweddol arnynt.

Gweithgareddau allweddol

Cynnal adolygiadau o strwythur llywodraeth leol, trefniadau etholiadol a ffiniau gweinyddol yn deillio o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Ymlyniad Cyhoeddus mewn Iechyd 2007.

- Prif ffocws y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn oedd symud adolygiadau etholiadol ymlaen yn yr awdurdodau unedol newydd a sefydlwyd ar 1 Ebrill 2009. Cwblhaodd y Pwyllgor ei adolygiadau ar Gernyw a Northumberland a bydd gorchmynion yn cael eu cyflwyno yn y Senedd i ddod â'r rhain i rym cyn gynted ag y bydd y broses wedi ei hesbonio gan Awdurdodau'r Senedd. Mae olynydd y Pwyllgor, Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Lloegr, yn disgwyl cyhoeddi argymhellion terfynol ar gyfer Bedford, Canol Swydd Bedford, Sir Durham, Dwyrain Swydd Gaer a Gorllewin Swydd Gaer a Chaer erbyn hydref 2010.

- Yn Chwefror 2008 gofynnodd Llywodraeth y DU i'r Pwyllgor gynghori'r Ysgrifennydd Gwladol Cymunedau a Llywodraeth Leol ar strwythurau unedol llywodraeth leol Dyfnaint, Norfolk a Suffolk. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei gyngor terfynol i'r Ysgrifennydd Gwladol yn Rhagfyr 2009. Yn Chwefror 2010 cyhoeddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol benderfyniadau'r Llywodraeth i weithredu'r cynigion gwreiddiol (ar gyfer awdurdodau unedol i Exeter a Norwich ar eu ffiniau presennol). Yn Suffolk daeth y Gweinidog i'r casgliad na ddylid gweithredu'r cynigion hyn gan argymell Cynulliad Corfforaethol Sirol yn cynnwys y prif awdurdodau lleol yn Suffolk a'u ASau gyda'r bwriad o gytuno ar ddatrysiad unedol posibl. Roedd y broses a ddilynwyd gan y Pwyllgor wrth gynghori'r Ysgrifennydd Gwladol yn un drom iawn a dioddefodd oedi sylweddol oherwydd sialensau cyfreithiol gan awdurdodau lleol yn y siroedd. Fodd bynnag roedd y Pwyllgor yn fodlon bod ei gyngor yn seiliedig ar yr ymgynghoriad eang iawn yr oedd wedi ei gynnal a bod ei natur ddiduedd a'i annibyniaeth yn cael eu cydnabod yn glir gan bawb a gymerodd ran yn y broses.

- Dechreuodd y Pwyllgor gynnal adolygiadau etholiadol yn Stoke-on-Trent a Mansfield, gan sicrhau bod pobl leol a sefydliadau'n cael y cyfleoedd i ymgynghori er mwyn darparu tystiolaeth allai ddylanwadu ar benderfyniadau'r Pwyllgor.

Cynnal adolygiadau etholiadol o awdurdodau lleol lle byddai anghyfartaledd etholiadol sylweddol yn codi.

- Cychwynnodd y Pwyllgor ar adolygiadau etholiadol yn Northampton, Sedgemoor, De Swydd Derby a Gorllewin Gwlad yr Haf. Mae'r holl adolygiadau yn mynd yn eu blaenau yn ôl yr amserlen. Mae Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Lloegr yn bwriadu cychwyn ar 15 adolygiad arall yn ystod 2010–11.

Datblygu a chynnal rhaglen dwy i dair blynedd o waith adolygu ffiniau gweinyddol, gan ymgynghori gyda buddiannau lleol.

- Datblygodd y Pwyllgor raglen ddwy flynedd o weithgareddau adolygu. Mae'r adolygiadau hyn yn seiliedig ar geisiadau gan awdurdodau lleol am adolygiadau etholiadol i ddarparu ar gyfer wardiau neu adrannau un aelod, neu i leihau maint cyngor. Wrth lunio ei raglen fe wnaeth y Pwyllgor hefyd ymateb i geisiadau am adolygiadau ar ffiniau gweinyddol. Bydd y rhan fwyaf o'r rhaglen yn ymdrin ag anghyfartaledd etholiadol sydd wedi codi mewn awdurdodau lleol ers iddynt gael eu hadolygu ddiwethaf – cyfrifoldeb y Pwyllgor oedd cynnal archwiliad o anghyfartaledd etholiadol ar draws Lloegr yn flynyddol.

Gweithio gyda Llywodraeth y DU a Phwyllgor y Llefarydd i weithredu trosglwyddo swyddogaethau adolygu a gweithredu o'r Comisiwn i'r Pwyllgor Ffiniau.

- Roedd y Ddeddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu, a dderbyniodd y Cydsyniad Brenhinol yn Rhagfyr 2009, yn darparu ar gyfer sefydlu Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Lloegr. Bu'r Pwyllgor Ffiniau a'r Comisiwn Etholiadol yn gweithio'n glos gyda'i gilydd i sicrhau bod y trosglwyddo i'r corff newydd,

annibynnol yn digwydd yn llyfn. Cychwynnodd y Comisiwn ar ei waith ar 1 Ebrill 2010 gyda strwythurau yn eu lle – gan gynnwys cyllideb, cynllun corfforaethol, adeiladau newydd, a pherthynas gyda Phwyllgor y Llefarydd.

Gwaith Pwyllgor Ffiniau Lloegr yn 2009–10

Bu'r Pwyllgor Ffiniau yn rhan hanfodol o'r Comisiwn Etholiadol ers 2002 ac mae wedi darparu rhaglen waith eang ac amrywiol dros y cyfnod hwnnw. Trosglwyddodd y Ddeddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009 gyfrifoldeb am osod ffiniau etholiadol llywodraeth leol o'r Comisiwn Etholiadol a Phwyllgor Ffiniau Lloegr i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Lloegr, a gychwynnodd ar ei waith ar 1 Ebrill 2010.

Yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf, mae rhaglen waith y Pwyllgor yn llythrennol wedi mynd ag ef o un pen i Loegr i'r llall, o Gernyw i Northumberland ac o Sir Amwythig i Norfolk. Seiliwyd gwaith y Pwyllgor ar yr angen am gydbwysedd: cydbwysedd rhwng cydraddoldeb etholiadol a hunaniaeth gymunedol yn ei waith adolygu, ynghyd â chydbwyso gweinyddol ar yr angen i sicrhau cyfnodau ymgynghori digonol â'r dyddiadau gweithredu caeth iawn a osodwyd.

Roedd y broses adolygu strwythurol yn Nyfnaint, Norfolk a Suffolk yn arbennig o drwm ac fe welwyd oedi sylweddol am resymau tu hwnt i reolaeth y Pwyllgor Ffiniau. Tra roedd yr adolygiadau ar y tri rhanbarth gogleddol yn 2003–4 yn seiliedig ar amcan polisi Llywodraeth clir a chyson, teimlai rhai awdurdodau lleol nad oedd hyn yn wir gyda'r broses hon.

Ond, er gwaethaf y ddadl, achosion llys a gwrthdaro rhwng lladmeryddion gwahanol batrymau o lywodraeth leol unedol â'r status quo, roedd y Pwyllgor yn medru cyflwyno cyngor i'r tair sir yn Rhagfyr 2009 yn seiliedig ar dros 20,000 o gyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd, a sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol trwy'r tair sir.

Yn ychwanegol, cynhaliwyd digwyddiadau o amgylch y bwrdd ar draws y siroedd fel bod y Pwyllgor yn medru cael ymdeimlad uniongyrchol o'r hyn yr oedd pobl yn ei feddwl, a pham eu bod yn ei feddwl. A chyhoeddwyd pob darn o dystiolaeth a dderbyniwyd ar wefan y Pwyllgor. Cydnabu pawb a gymerodd ran yn y broses y tryloywder, natur ddiduedd a'r annibyniaeth hwnnw; ac roedd y Llysoedd, trwy'r adolygiadau barnwrol a gychwynnwyd gan awdurdodau lleol, yn cefnogi dull y Pwyllgor o weithredu.

Mae'r Pwyllgor wedi sicrhau bod ei brosesau wedi esblygu ers ei sefydlu, ac mae'r esblygiad hwnnw yn gynnyrch cynnal ychydig dan 100 adolygiad etholiadol ers 2002. Ers 2004 ychwanegwyd cyfnod ymgynghori ychwanegol – ar faint cynghorau – at gychwyn adolygiadau pan fydd hynny'n bosibl.

Yn fwy diweddar mae'r Pwyllgor wedi ceisio ymwneud ag awdurdodau lleol a grwpiau gwleidyddol i drafod eu rhesymeg ar faint cynghorau, gan eu gwahodd i herio'r patrwm arferol a meddwl o'r newydd am strwythurau rheoli gwleidyddol a'r cynghorwyr, y tu mewn a'r tu allan i siambr y cyngor.

Daeth aelodau a staff y Pwyllgor Ffiniau â phrofiad eang a phroffesiynoldeb gyda nhw o Gomisiwn Llywodraeth Leol Lloegr yn 2002, ac ychwanegwyd atynt dros y blynyddoedd. Dangosodd y Pwyllgor, trwy ei waith ar adolygiadau strwythurol, ei allu i addasu mewn cyfnod byr i faich gwaith a phwysau gwaith oedd yn newid. Trwy gydol yr amser fe wnaeth gynnal ei annibyniaeth a'i hygrededd, ac roedd yn cael ei gydnabod yn eang fel corff arbenigol yn ei faes. Teimlwn yn siŵr y bydd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Lloegr yn adeiladu ar enw da'r Pwyllgor.

Cyllid ac adnoddau corfforaethol

Mae ein llwyddiant a'r ffordd yr ydym yn rheoli a chyflawni ein gwaith yn dibynnu ar y bobl sy'n gweithio i ni; trwyddynt hwy yr ydym yn medru cyflawni newid a darparu canlyniadau.

Ar 31 Mawrth 2010,[47] roedd gan y Comisiwn 166 o staff yn cyfateb i staff amser llawn yn eu swydd. O'r rhain, roedd 129 o'r staff yn gweithio yn swyddfa Llundain a'r gweddill yn swyddfeydd y Comisiwn yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau Lloegr tu allan i Lundain. Roedd cyfanswm y bil cyflog ar gyfer 2009–10 tua 8.8m.

Mae ein cyfran fwyaf o staff yn ymwneud â'n gwaith ar weinyddu etholiadol a rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau.

Yn 2009–10 fe wnaethom lansio cyfleuster recriwtio ar–lein i wneud recriwtio yn fwy effeithlon a gwella'r profiad i ymgeiswyr. Yn ogystal ag arbed arian, fe wnaeth yr arfer recriwtio ar gyfartaledd leihau o 10 diwrnod gwaith. Fe wnaethom ail ddatblygu ein rhaglen gynefino gorfforaethol, gan gynnwys rhaglen ar gyfer rheolwyr newydd eu penodi, trosglwyddiadau mewnol a'r rhai sy'n dychwelyd i'r gwaith, i alluogi staff i ddeall ein gwaith a'r hyn a ddisgwylir ganddynt yn gyflym.

Fe wnaethom gyflwyno cynllun dysgu a datblygu corfforaethol newydd i drafod y pynciau allweddol sy'n ofynnol i helpu i gyflawni ein hamcanion corfforaethol. Dangosodd adborth staff welliant sylweddol fel canlyniad.

Fe wnaethom barhau i gryfhau ein hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth yn 2009–10. Fe wnaethom lwyddo i gadw'r symbol anabledd dau dic, sy'n golygu ein bod yn cael ein cydnabod fel cyflogwr sy'n bositif am bobl anabl ac fe wnaethom asesu ein polisïau cyflogi i sicrhau cyfle cyfartal i bawb. Adlewyrchir y canlyniadau yn ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl, sydd ar hyn o bryd allan i gael ymgynghori arno.

Fe wnaethom hefyd lwyddo i gefnogi trosglwyddo'r Pwyllgor Ffiniau a'r staff cysylltiedig i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Lloegr newydd annibynnol.

47 Ar 31 Mawrth 2009, roedd gan y Comisiwn 153 o staff yn cyfateb i staff amser llawn yn eu swydd o'u cymharu â'r cyfanswm y cytunwyd arno o 177 o swyddi yn cyfateb i amser llawn.

Adnoddau a chyllid corfforaethol

Tabl 14: Ethnigrwydd staff ar 31 Mawrth 2010			
Grŵp ethnig	Nifer o staff	Canran o staff	Cyfanswm canran y Deyrnas Unedig[48]
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	7	4.1	4.0
Du neu Ddu Prydeinig	13	7.6	2.0
Tsieineaidd neu grŵp ethnig arall	1	0.6	0.8
Cymysg	3	1.7	1.2
Heb ei ddatgelu	23	13.4	0.0
Gwyn Prydeinig, Gwyddelig ac arall	125	72.7	92.1

Tabl 15: Manylion rhyw staff ar 31 Mawrth 2010			
Rhyw	Nifer o staff	Canran o'r staff	Cyfanswm canran y Deyrnas Unedig
Gwrywaidd	79	45.9	49.1
Benywaidd	93	54.1	50.9

Crynodeb ariannol

Mae Pwyllgor y Llefarydd wedi dynodi Prif Weithredwr y Comisiwn fel y Swyddog Cyfrifo. Mae'n gyfrifol am gywirdeb a chysondeb cyllid, gan sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw, a bod asedau yn cael eu diogelu. Mae'n cael ei gefnogi yn y cyfrifoldebau hyn gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol a thrwy fframwaith o reolaeth cyllideb sydd wedi ei datganoli a'i dirprwyo i Gyfarwyddwyr ac uwch reolwyr.

Yn Ebrill 2007, cytunodd Pwyllgor y Llefarydd ar setliad aml flwyddyn gwastad, yn cynnwys 2007–8 i 2010–11. Gan fod yr adnoddau cyllid y cytunwyd arnynt yr un swm ar gyfer pob blwyddyn o'r cyfnod pedair blynedd hwn ond bod ein costau yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn gan ddibynnu ar ba bryd y mae etholiadau, rydym wedi defnyddio hyblygrwydd diwedd blwyddyn i gyfateb gofynion o ran adnoddau rhwng blynyddoedd.

48 Ffynhonnell data – ONS, Cyfrifiad y Deyrnas Unedig, Ebrill 2001.

Adnoddau a chyllid corfforaethol

Mae tabl 16 yn dangos cost cyflawni ein hamcanion yn ystod 2009–10. Mae'r ffigyrau, a gymerwyd o'n cyfrifon archwiliedig a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin yng Ngorffennaf 2010, ar gael ar ein gwefan ac maent yn nodi manylion llawn ein sefyllfa ariannol a'n perfformiad. Mae tablau 17, 18 ac 19 yn dangos y cyflogau a dderbyniwyd gan Gomisiynwyr Etholiadol, Aelodau o Bwyllgor Ffiniau Lloegr a'r Tîm Gweithredol.

Tabl 16: Costau gweithredu net yn ôl nodau ac amcanion

	2009–10			2008–9		
I hyrwyddo	Gwariant gros £000	Incwm £000	Net £000	Gwariant gros £000	Incwm £000	Net £000
Hygrededd a thryloywder cyllid pleidiau ac etholiadau (Amcan 1)	6,530	(43)	6,487	5,103	(32)	5,071
Cofrestri etholiadol cyflawn a chywir a gefnogir gan broses gofrestru etholiadol a gynhelir yn dda (Amcan 2)	8,197	0	8,197	6,681	0	6,681
Etholiadau a refferenda a gynhelir yn dda sy'n cynhyrchu canlyniadau a dderbynnir (Amcan 3)	4,590	0	4,590	3,230	0	3,230
Trefniadau ffiniau teg ar gyfer etholiadau yn Lloegr (Amcan 4)	3,329	0	3,329	3,896	0	3,896
Dealltwriaeth y cyhoedd o'r modd y mae ein democratiaeth yn gweithio [49]	–	–	–	3,585	0	3,585
Cyfanswm	22,646	(43)	22,603	22,495	(32)	22,463

49 O ddechrau 2009–10 integreiddiwyd y gwaith dan yr amcan hwn yn rhan o Amcanion 2 a 3 a restrir uchod.

Adnoddau a chyllid corfforaethol

Roedd y cyflogau a'r ffioedd a dalwyd o'r Gronfa Grynoëdig i'r Comisiynwyr yn ystod 2009–10 fel a ganlyn:

Tabl 17: Tâl comisiynwyr

Enw	Cyflog neu ffioedd 2009–10 (£)	Cyflog neu ffioedd 2008–9 (£)
Jenny Watson (Cadeirydd)[50]	100,375	24,125
Max Caller CBE	13,090	15,381
Max Caller (Cadeirydd Comisiwn Ffiniau Lloegr/bwrdd prosiect LGBCE)	27,809	37,443
Henrietta Campbell CB	24,768	24,888
Tony Hobman (o 19 Ionawr 2010)	0[51]	–
Ian Kelsall OBE DL	13,275	18,812
John McCormick	24,372	23,315
Karamjit Singh CBE (hyd at 18 Ionawr 2010)	6,803	14,834

Gall y Tŷ Cyffredin ddarparu'r trefniadau pensiwn ar gyfer comisiynwyr drwy osod cynnig gerbron. Dim ond ar gyfer Cadeirydd y Comisiwn y gwnaed y ddarpariaeth hon eisoes.

Y ffioedd a dalwyd o'r brif gronfa wladol i'r Cadeirydd a gan y Comisiwn i Aelodau Pwyllgor Ffiniau Lloegr yn ystod y flwyddyn oedd:

Tabl 18: Tâl Dirprwy Gomisiynwyr

Enw	Ffioedd 2009-10 (£)	Ffioedd 2008–9 (£)
Jane Earl	9,225	18,172
Yr Athro Ron Johnston (hyd at 8 Gorffennaf 2009)	5,668	24,382
Joan Jones CBE	12,831	31,038
Dr Peter Knight CBE	8,910	17,000
Yr Athro Colin Mellors	8,690	21,844

Adnoddau a chyllid corfforaethol

Talwyd ffioedd o £1818 i Elizabeth Butler yn 2009 -2010 am ei gwaith fel aelod annibynnol o'r pwyllgor archwilio.

Dyma'r cyflogau a dalwyd i dîm gweithredol y comisiwn:

Tabl 19: Taliadau i'r Tîm Gweithredol				
Enw	Cyflog neu ffioedd 2009–10 (£)	Buddiannau mewn da 2009–10 (£)	Cyflog neu ffioedd 2008–9 (£)	Buddiannau mewn da 2008–9 (£)
Peter Wardle (Prif Weithredwr)	121,800	0	120,000	0
Clare Ettinghausen (Dirprwy Brif Weithredwr)	97,856	0	93,996	0
Carolyn Hughes (Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol)	92,420	0	91,054	0
Lisa Klein (Cyfarwyddwr Cyllid Pleidiau ac Etholiadau)	92,420	0	91,054	0
Stephen Rooney (Cyfarwyddwr Cyfathrebu)	92,420	0	91,054	0
Andrew Scallan (Cyfarwyddwr Gweinyddu Etholiadol a Ffiniau)	92,420	32,240[52]	91,054	30,375[52]

50 Pan baratowyd ac yr archwiliwyd Cyfrifon Adnoddau 2008–9, hysbyswyd y Comisiwn gan Xafinity Paymaster mai'r ffioedd a dalwyd i Jenny Watson (Cadeirydd) yn 2008–9 oedd £24,125, fel yn Nhabl 17. Cytunwyd erbyn hyn mai £25,000 oedd y taliad.

51 Ildiodd Tony Hobman ei hawl i ffioedd yn ystod 2009–10 .

52 Costau llety i gefnogi trefniant secondiad; cyflogir Andrew Scallan gan Gyngor Dinas Manceinion.

Adnoddau a chyllid corfforaethol

Buddiannau, rhoddion a lletygarwch

Mae Comisiynwyr, Dirprwy Gomisiynwyr, Aelodau Bwyllgor y Llefarydd Lloegr a'r staff yn cadw at god ymddygiad, y mae rhan ohono yn gofyn iddynt ddatgan unrhyw fuddiant, ac unrhyw roddion neu letygarwch y maent wedi eu derbyn neu gael eu cynnig. Mae'r cofrestri yn cael eu diweddaru yn gyfnodol ac maent ar gael yn: www.electoralcommission.org.uk/about-us/how-we-are-run/the-commissioners a www.electoralcommission.org.uk/about-us/how-we-are-run/executive-team.

Ymrwymiad amgylcheddol

Yn 2009, fe wnaethom leihau ein hallyriadau carbon trwy deithio awyr o 41% o'i gymharu â 2008. Fel rhan o'n hymgyrch i gymryd cyfrifoldeb am ein heffaith amgylcheddol, rydym yn gwrthbwyso'r allyriadau carbon o hedfan trwy 'Carbon Retirement'. Mae hyn yn golygu prynu trwyddedau carbon a fyddai fel arall yn cael eu defnyddio gan ddiwydiannau trwm sy'n cael eu rheoleiddio gan Gynllun Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd.

Rhyddid gwybodaeth, cwestiynau Seneddol a chwynion

Rydym yn atebol i Lywodraeth y DU drwy Bwyllgor y Llefarydd. Yn 2009–10 ymatebodd y llefarydd ar ran y Pwyllgor, Gary Streeter AS (Syr Peter Viggers AS hyd Mehefin 2009) i 101 o gwestiynau Seneddol.

Rydym yn ymroddedig i egwyddorion bod yn agored a thryloyw mewn bywyd cyhoeddus ac mae gennym ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd. Yn ystod 2009–10, fe wnaethom ymateb i 115 cais a wnaed dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Fe wnaethom hefyd ymateb i 21 cwyn am ymddygiad y Comisiwn.

Cysylltu â ni

The Electoral Commission
Trevelyan House
Great Peter Street
London SW1P 2HW
Ffôn: 020 7271 0500
Ffacs: 020 7271 0505
Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
info@electoralcommission.org.uk
www.electoralcommission.org.uk

The Electoral Commission
Scotland Office
38 Thistle Street
Edinburgh EH2 1EN
Ffôn: 0131 225 0200
Ffacs: 0131 225 0205
Ffôn testun: 18001 0131 225 0200
infoscotland@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
Swyddfa Cymru
Tŷ Caradog 1–6 Plas Sant Andreas
Caerdydd CF10 3BE
Ffôn: 029 2034 6800
Ffacs: 029 2034 6805
Ffôn testun: 18001 029 2034 6800
infowales@electoralcommission.org.uk

The Electoral Commission
Northern Ireland Office
Seatem House
28–32 Alfred Street
Belfast BT2 8EN
Ffôn: 028 9089 4020
Ffacs: 028 9089 4026
Ffôn testun: 18001 028 9089 4020
infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

The Electoral Commission
Eastern and South East Office
Trevelyan House
Great Peter Street
London SW1P 2HW
Ffôn: 020 7271 0600
Ffacs: 020 7271 0505
Ffôn testun: 18001 020 7271 0600
easternandsoutheastoffice@
electoralcommission.org.uk

The Electoral Commission
London Office
Trevelyan House
Great Peter Street
London SW1P 2HW
Ffôn: 020 7271 0689
Ffacs: 020 7271 0505
Ffôn testun: 18001 020 7271 0689
london@electoralcommission.org.uk

The Electoral Commission
Midlands Office,
No 2 The Oaks
Westwood Way, Westwood Business Park
Coventry CV4 8JB
Ffôn: 02476 820086
Ffacs: 02476 820001
Ffôn testun: 18001 02476 820086
midlands@electoralcommission.org.uk

The Electoral Commission
North of England Office
York Science Park
IT Centre, Innovation Way
Heslington
York YO10 5DG
Ffôn: 01904 567990
Ffacs: 01904 567719
Ffôn testun: 18001 01904 567990
north@electoralcommission.org.uk

The Electoral Commission
South West Office
Regus, 1 Emperor Way
Exeter Business Park
Exeter EX1 3QS
Ffôn: 01392 314617
Ffacs: 01392 314001
Ffôn testun: 18001 01392 314617
southwest@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol

Mae democratiaeth yn cyfrif

Rydym yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan Senedd y DU. Ein nod yw uniondeb y broses ddemocrataidd a hyder y cyhoedd ynddi. Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau ac yn gosod safonau ar gyfer etholiadau a gynhelir yn dda.

Y Comisiwn Etholiadol
Swyddfa Cymru
Tŷ Caradog
1–6 Plas Sant Andreas
Caerdydd CF10 3BE

Ffôn: 029 2034 6800
Ffacs: 029 2034 6805

gwybodaeth@comisiwnetholioadol.org.uk
www.comisiwnetholiadol.org.uk